Rhif 189 Mehefin – Gorffennaf 2014 40c

# Gwyliedydd

Synod Cymru

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD




Oxfam · action for children gweithredu dros blant · MHA bringing quality to later life · unicef · cymorth cristnogol

# Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD

Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 189**
**MEHEFIN - GORFFENNAF 2014**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn; 40c y copi;
6 rhifyn drwy'r post £4.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

***Golygyddion:***

**ROBIN JONES**
LLYS ALAW
18 STÂD ERYRI
BETHEL
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA
GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

***Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion***

**DYDDIAD CAU:**
**3 GORFFENNAF, 2014**


Dylid gwneud sieciau yn daladwy i
"Y Llyfrfa Fethodistaidd"

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018


## RHODDION I'R GWYLIEDYDD

Derbyniwyd yn ddiolchgar y swm o £30.00. I gofio'n dyner am fy rhieni, y Parchedig D.R.Evans a Nancy M. Evans 'Gwyn eu byd y rhai pur o galon' - Y Teulu.

Derbyniwyd yn ddiolchgar hefyd swm o £10 yn rhodd gan Nia Rhosier.




*Diolch i Deiniol Jones am gynllunio'r dudalen flaen hardd. Mae'r logos yn cynrychioli rhai o'r holl fudiadau, crefyddol neu seciwlar, lle mae'r Ysbryd Glân ar waith yn ein byd.*

# O'R GADAIR AR Y GOROR

**gan y Parchedig JENNIFER HURD**

Wrth i mi ysgrifennu'r darn hwn, dwi'n edrych ymlaen at sawl peth. Bydd hanner y rhain wedi mynd heibio cyn i'r rhifyn yma o'r *Gwyliedydd* gael ei gyhoeddi, ond mae cysylltiad pwysig rhyngddyn nhw yn fy meddwl i. Cewch weld a ydych yn cytuno, erbyn gwaelod y tudalen!

Yn gyntaf, dwi'n edrych ymlaen at weld gwefan newydd Synod Cymru yn cael ei lansio. Gobeithio y bydd hyn yn ffordd ddefnyddiol o gysylltu efo'n gilydd ac efo'r byd ehangach. www.synodcymru.org.uk <http://www.synodcymru.org.uk> fydd y cyfeiriad. Dwi'n ddiolchgar i Anthony Williams, gŵr Mrs Siân Williams o Ardal Glannau Maelor, am ei gymorth. Bydd Siân yn fy helpu i ofalu am y wefan, hefyd. Nesaf, dwi'n edrych ymlaen at ddathlu daucanmlwyddiant Thomas Coke yn Aberhonddu ar Fai 3ydd. Fel un o arweinwyr y Methodistiaid cynnar, roedd Coke yn gyfrifol am anfon cenhadon dros y byd, yn cynnwys i Gymru. Gobeithio y buasai wedi bod yn gefnogol i rywbeth arall sy'n gwneud i mi deimlo tipyn bach yn gyffrous, sef digwyddiad lansio "Datblygu Ein Galwad" yn Aberystwyth ar Fai 10fed. Proses pedair blynedd yw "Datblygu Ein Galwad", y cytunwyd arni gan y Synod, i'n helpu i ystyried ein galwad fel aelodau'r Eglwys Fethodistaidd. Mae hynny'n cynnwys dysgu a gofalu, gwasanaethu, addoli ac efengylu yn y byd o'n cwmpas. Gobeithio y byddwn yn clywed mwy o hanes hyn yn y misoedd i ddod.

Dwi'n edrych ymlaen at bob Sul, yn arbennig wrth i mi gael y fraint o ymweld ag Ardaloedd a chapeli'r Synod i arwain gwasanaethau. Diolch am y croeso sy'n cael ei estyn i mi, bob amser. Wrth imi ysgrifennu, mae dau Sul dwi'n edrych ymlaen atyn nhw mewn ffordd benodol: Sul Aldersgate a'r Pentecost. Ar Sul Aldersgate (18fed Mai eleni), mae'r Eglwys Fethodistaidd dros y byd yn rhoi diolch i Dduw am dröedigaeth John Wesley mewn cyfarfod yn Stryd Aldersgate, Llundain, yn 1738. Ar ôl y profiad yma - pan gynhesodd ei galon - dechreuodd bregethu am gariad Duw yn y caeau a'r strydoedd, ac mae'r gweddill, fel maen nhw'n dweud, yn hanes. Ond prin y gall y Sul yma gymharu â'r Pentecost (Mehefin 8fed) pan fyddwn yn dathlu rhodd Duw sef ei Ysbryd Glân i'r eglwys a'r byd i gyd. Does dim byd yr un fath ers y Pentecost cyntaf a'r sicrwydd a gafwyd o bresenoldeb Duw yng Nghrist, drwy'r Ysbryd Glân, efo ni am byth. Mae bywydau'n cael eu newid, mae'r byd yn cael ei newid, pan ddaw'r Ysbryd Glân yn agos atom ni - fel y profodd John Wesley.

A sôn am Wesley, dwi'n edrych ymlaen hefyd at y Gynhadledd Fethodistaidd yn Nhalaith Birmingham, ddiwedd Mehefin/ ddechrau Gorffennaf. Mae pump ohonom ni o Synod Cymru yn mynd i ymuno efo cannoedd o bobl eraill i weddïo, addoli, trafod a phenderfynu am fywyd ein henwad. Un o'm hoff ddigwyddiadau yn y Gynhadledd yw croesawu ein brodyr a chwiorydd o dramor. Mae'n gyfle i ddathlu ein hundod dros y byd yn y teulu Methodistaidd. A dwi'n edrych ymlaen at gael profiad agosach o hynny dros yr haf a'r hydref pan fydd aelod ifanc o'r Eglwys Fethodistaidd yn Chile/Y Wladfa yn dod i Gymru i wella ei Chymraeg a'i Saesneg ac i ddysgu am fywyd yr eglwys yma. Nid yw'r manylion ar gyfer yr ymweliad wedi'u penderfynu'n derfynol eto, ond mae Constanza Pulgar Bart yn bwriadu dilyn cwrs Cymraeg yng Nghaerdydd am ddau fis ac yna dod i aros ym mans y Cadeirydd. Efallai y bydd rhai yn cofio aelodau eraill o deulu Constanza yn ymweld â Chymru yn y gorffennol. Mae sawl un wedi cynnig rhoi croeso i Constanza a gobeithio y bydd cyfle iddi brofi croeso cynnes, Cymreig ym mhob Ardal. Bydd yn gyfle ardderchog i ninnau ddysgu am ran arall o fyd Duw.

A'r cysylltiad rhwng yr holl bethau yma? Wrth i mi feddwl amdanyn nhw, mae un o ddywediadau John Wesley yn dod yn ôl eto ac eto: "The world is my parish" / "Y byd yw fy mhlwyf". Dywedodd Wesley hynny nid yn unig oherwydd nad oedd yn dderbyniol i Eglwys Loegr fel offeiriad mewn plwyf ond oherwydd ehangder ei gonsýrn am bobl mewn angen. Mae'n dweud rhywbeth wrthym am gyd-destun ein galwad fel Cristnogion: er ein bod yn awyddus i wasanaethu Duw yn ein milltir sgwâr, ar yr un pryd mae'r cyd-destun ehangach yn bwysig. Drwy'r Pentecost daethpwyd â'r holl fyd ynghyd mewn un lle (Actau 2): boed i ni chwarae ein rhan yng ngwaith parhaus Duw yng Nghrist, i gymodi'r byd ag ef ei hun, er ei ogoniant. Pob bendith i chwi.

**Derbyniwch helm iachawdwriaeth a chleddyf yr Ysbryd, sef gair Duw. (Effesiaid 6:17)**

# Y diweddar Iwan Griffith Pennant Lewis

Gyda marwolaeth y Parchedig Iwan Lewis ar Fawrth 3ydd 2014 mae'n chwith meddwl bod gwasanaeth am gyfanswm o 102 o flynyddoedd i'r Weinidogaeth Fethodistaidd gan aelodau un teulu wedi dod i ben. Un o bentref Deiniolen oedd y Parch. John Lewis a ddechreuodd deithio yn 1912 a bu i'w ddau fab, Meilir ac Iwan Pennant Lewis ei ddilyn i'r weinidogaeth gan roi o'u gorau i waith y deyrnas ar hyd eu gyrfaoedd. Un o Bronfedw, Meifod oedd Mrs Morfydd Lewis a gwn bod Iwan yn ymhyfrydu bod ganddo wreiddiau nid yn unig yn sir Gaernarfon, ond hefyd yn sir Drefaldwyn a fu'n gartref iddo am bron hanner ei oes.

Ganed Iwan yn Lerpwl ar Fawrth 16eg 1925 tra roedd ei dad a'i fam yn byw yn Aberffraw, Ynys Môn. Roedd y meddyg lleol yn pryderu am gyflwr y baban disgwyliedig a bu'n rhaid mynd i Lerpwl i gael y gofal gorau. Ymhen tri mis ar ôl ei eni symudodd y teulu i Langollen a dilyn y patrwm Methodistaidd o symud yn aml fu'r hanes o hynny ymlaen. Yn y cyfnod cynnar hwn bu'n byw yn Llanfechain (Maldwyn), Llanrhaeadr ym Mochnant a Dolgellau. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu Iwan yn un o Fechgyn Bevin, gan weithio ym mhyllau glo Hafod a Llai yn Wrecsam, cyn symud i'r Parlwr Du, Llanasa.

Pan ddaeth y rhyfel i ben cafodd fynediad i Goleg Prifysgol Cymru Bangor lle graddiodd yn B.A. gydag anrhydedd. Trodd ei olygon wedyn at gymhwyso ei hun ar gyfer y Weinidogaeth gan astudio yng Ngholeg Hartley Victoria, Manceinion ac ennill B.D.

Wedi treulio cyfnod ar brawf cafodd ei ordeinio ac aeth yn 1952 yn ail weinidog i Bontypridd gyda Chapel Coffa enwog John Evans Eglwysbach o dan ei ofal. Yn anffodus mewn byr amser bu farw ei arolygwr a bu'n rhaid i'r gweinidog ifanc 27 oed ofalu am Gylchdaith oedd yn ymestyn hyd at Aberpennar ac Aberdâr. Gwn fod Iwan yn meddwl y byd o'r rhan hon o dde Cymru a dichon fod ei brofiadau fel gweithiwr ym maes glo'r gogledd ddwyrain wedi'i alluogi i glosio at *arwyr dewr erwau'r glo*, chwedl Gwilym R Tilsley. Bu ef a Gwyneth ar bererindod i'r fro rhyw ddwy flynedd yn ôl a chafodd bleser mawr yn troedio llwybrau ei ofalaeth gyntaf.

Yn dilyn ei fedydd tân megis yn y de, aeth yn weinidog i Ruthun, Tre'r Ddol a Porthmadog ac yn y dref honno y cyfarfu â Gwyneth a bu i'r ddau briodi yng Nghricieth yn 1967 gyda'i frawd Meilir yn uno'r ddeuddyn hapus. Fel y gwyddom nid oes cwrs paratoi i gymhwyso rhywun i fod yn gymar i weinidog ond yn Gwyneth fe gafodd Iwan gymar delfrydol a fu'n gefn iddo ar hyd y blynyddoedd. Ni fyddai ond munud yng nghwmni'r ddau yn ddigon i sylweddoli bod eu perthynas yn un gariadus, yn amlygu gofal tyner y ddau dros ei gilydd. Bu'r bartneriaeth hon ar waith ym Mae Colwyn a Llangefni cyn i'r ddau ddod i'w Cylchdaith olaf sef Powys ym 1976, gan fyw yn Llanfyllin. Yn y dref honno y cafodd eu plant, sef Huw a Ruth, eu haddysg gynradd ac uwchradd ac er nad oedd Iwan yn un i ganmol ei deulu, fe wn iddo fod yn gefn cadarn wrth iddynt feithrin eu doniau a datblygu eu gyrfaoedd.



Yn 1992, cafodd Iwan y cyfle *i eistedd i lawr*, gan symud o Lanfyllin i bentref Cegidfa ger y Trallwm a threulio 22 o flynyddoedd o ymddeoliad dedwydd yn yr ardal honno. Daliodd mewn cysylltiad â'r Tabernacl Llanfyllin ond cafodd hefyd gyfle i fynychu Capel Cymraeg y Trallwm ac i addoli yn eglwys y plwyf, Cegidfa.

Ond ni fu blynyddoedd ei ymddeoliad yn rhai segur o gwbl. Parhaodd i bregethu a nodwedd amlwg o'i bregethu oedd y paratoi manwl a'r saernïo crefftus ar ei neges. Credai'n gryf y dylai pob pregethwr ddefnyddio llithiadur yr Eglwysi gan ymgodymu â'r adnodau o wahanol rannau o'r Beibl i ffurfio pregeth a fyddai'n clymu'r cyfan yn neges ddestlus a bendithiol. Golyga hyn ymchwil manwl a darllen dwfn ond fel un a gredai mai dyma oedd ei alwad fel pregethwr Wesla, fe fu'n ffyddlon i ddymuniad ei enwad ar hyd y daith. Fe fyddai'r sawl a welodd ei lyfrgell yn gwybod yn iawn fod Iwan o ddifrif gyda'i brif alwad, sef pregethu. Roedd ar ei silffoedd gyfrolau o bob math gyda gogwydd y cyfan i gyfeiriad cyflwyno'r Gair yn gyfoes ac effeithiol. Dros y blynyddoedd bu'n hynod o glên yn rhoi llyfrau imi a fyddai wedi costio'n ddrud iddo i'w prynu. Bu'r rhoddion hyn yn gymorth ar sawl achlysur i lunio pregeth ac mae eu bodio o dro i dro yn f'atgoffa mai ffrind personol oedd eu rhoddwr. Ar un cyfnod cefais anhwylder blin a olygai fod adref am wythnosau. Bu Iwan yn ymwelydd cyson ar yr adeg hynny a phan ddigwyddais ddweud wrtho fod mynd i gysgu'r nos yn broblem, cododd yn sydyn a mynd am ei gar. Daeth yn ôl a chyflwyno imi gyfrol am bregethwr pur amlwg gan awgrymu y byddai darllen pennod yn sicr o wneud imi gysgu mewn byr amser!

Roedd Iwan yn aelod brwd o'r Brawd/ Chwaeroliaeth fisol yn y Trallwm. Gwrandawai'n astud ar yr agorwyr a byddai ganddo sylwadau adeiladol bob amser i'w hychwanegu. Byddai disgwyl eiddgar am ei dro ef i agor trafodaeth a gwnâi hynny'n ddisglair a chofiadwy. Roedd ganddo'r gallu prin hwnnw i blethu'r difrifol a'r doniol i wneud cyfanwaith perffaith. Rhyfeddid ni ar sawl achlysur gan ei wybodaeth fanwl am gapeli ac eglwysi tref yr Amwythig ac yn ddiddadl gallasai fod wedi bod yn dywysydd proffesiynol ar hyd a lled strydoedd hanesyddol y dref honno.

Prawf o'i allu i gyfathrebu â phobl yn effeithiol oedd y Myfyrdodau a gyfrannodd i'r *Gwyliedydd* yn gyson dros y blynyddoedd. Roedd eu darllen nid yn unig yn cyfoethogi'r meddwl ond yn falm i'r enaid hefyd.


I aelodau Cylchdaith Powys (fel yr oedd hi yn ei adeg ef) bydd y cof amdano yn aros yn hir iawn. Ni chlywais mewn cyfnod o bron i ddeg mlynedd ar hugain ddim ond canmoliaeth iddo fel gweinidog da a gofalus a fu'n bugeilio ei bobl ar adegau o lawenydd a thristwch. Gwelodd newidiadau mawr yn ystod ei weinidogaeth ond ni phallodd ei sêl a'i frwdfrydedd. Llwyddodd i barhau'n agored ei feddwl a pharod i fabwysiadu'r newydd wrth ddal ei afael yn y gwerthoedd a fu'n sail i'w fywyd a'i broffes.

Bu cyfnod ei salwch a'i wendid yn un anodd iddo ef a'i deulu. Gwireddwyd ei ddymuniad o fod gyda'i deulu hyd y diwedd. Llithrodd o afael cwlwm ei deulu i bresenoldeb ei Dad nefol ac i gwmni'r Arglwydd Iesu Grist.

Cynhaliwyd yr angladd dan arweiniad Cadeirydd Synod Cymru, y Parch. Jennifer Hurd. Rhoddwyd y deyrnged gan y Parch. Raymond Hughes a gweddïwyd gan y Parch. Gwyndaf Richards. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Mr Trefor Owen, y Trallwm a chanwyd unawd gan y Parch. Bethan Scotford, Cegidfa.

Estynnwn ein cydymdeimlad at ei annwyl wraig Gwyneth ac at Huw a'i briod Angela a'u plant Cari a Siôn ac at Ruth a'i gŵr Gareth a'u plant hwythau Ifan a Max ac wrth gwrs at aelodau eraill o'i deulu.

*Gwyndaf Roberts, Pontypridd*




***Diolch o galon i'r Panel am eu parodrwydd i gael eu holi eto! Diolch am y cwestiynau hefyd. Mae digon i bawb ohonom gnoi cil arno yma. Cofiwch, mae croeso i gwestiynau – neu sylwadau – ynglŷn â'r ffydd Gristnogol, materion cyfoes neu beth bynnag sydd ar eich calon. Anfonwch air i'r Gwyliedydd. Dyma ein fforwm: manteisiwch ar y cyfle!***

## 1. Pam mae bedydd yn bwysig mewn Cristnogaeth? –Gwynfor, Arfon

**Ateb Jennie**

Wel, Gwynfor, yn y lle cyntaf, mae bedydd yn bwysig oherwydd fe gafodd Iesu ei fedyddio (Mathew 3: 13-17; Marc 1: 9-11; Luc 3: 21-22). Doedd dim angen iddo fo wneud hynny, ond dyna beth wnaeth o, ar ddechrau ei weinidogaeth. Wrth i mi ddarllen yr ysgrythurau, dwi'n gweld bedydd Iesu yn arwydd o sawl peth, er enghraifft:

- dechreuad newydd, wrth i Iesu gychwyn ar ei weinidogaeth;
- ymrwymiad Iesu i'w weinidogaeth ac i Dduw;
- Duw'n derbyn Iesu ac yn rhoi arwydd o'i gariad ato.

Fel y rhai sy'n dilyn Iesu, mae Cristnogion eisiau gwneud beth wnaeth o, felly rydyn ninnau'n cael ein bedyddio. Mae'n arwydd o ddechreuad newydd yn y bywyd Cristnogol, ac o ymrwymiad i Dduw a'i ffyrdd. Ond yn arbennig, mae bedydd yn arwydd o gariad Duw tuag atom ni a'i fod yn ein derbyn. Mae bedydd yn sacrament, sef arwydd neu symbol o'r realiti dyfnaf, ac mae'n bwysig oherwydd mae'n sôn wrthym ni am ein perthynas efo Duw yn Iesu ac efo pawb sy wedi cael eu bedyddio, ac am gariad Duw, sydd y tu hwnt i eiriau.

*Y Parchedig Jennifer Hurd*

**Ateb Maryl**

Mae sail hanesyddol i'r arferiad o fedyddio. Byddai defod o fedydd pan droai cenedlddyn at Iddewiaeth ond mae'n debyg mai gyda Ioan Fedyddiwr y cychwynnodd yr arferiad ymhlith Cristnogion. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni wahaniaethu rhwng bedyddio baban a'r arfer o fedydd trochiant pan fydd rhywun yn ei arddegau, dyweder.

Pan fydd person ifanc neu, efallai, rywun hŷn yn dewis cael ei fedyddio mae hyn yn arwydd ei fod yn dewis dod yn aelod llawn o Eglwys Crist ac yn derbyn yr Arglwydd Iesu fel Gwaredwr. Mae'r bedydd yn symbol o olchi i ffwrdd yr hen ffordd a chychwyn ar daith newydd mewn bywyd.

Mae bedyddio baban yn ddewis y rhieni. Dyma arwydd eu bod yn cyflwyno'r plentyn i ofal Duw. Hefyd, yn ystod y gwasanaeth, mae'r gweinidog yn gofyn i aelodau'r eglwys fod yn gefn i'r rhieni a'u cynorthwyo i fagu'r plentyn fel ei fod yn tyfu yng ngras a chariad Iesu Grist.

*Maryl Rees*

**Ateb Martin**

Am mai bedydd sydd yn dynodi eich bod yn blentyn i Dduw, eich bod yn perthyn i'r Eglwys, yn rhan o gorff Crist, ac felly yn cyfranogi o'r holl ras y mae Duw yn ei gynnig i ni yng Nghrist. Mewn geiriau eraill mae Duw yn dweud wrthym, heb i ni orfod gwneud dim i'w haeddu, "Rwyt wedi dy dderbyn". Dywedodd Martin Luther, sylfaenydd y Diwygiad Protestannaidd, "Pan wyf yn ddigalon, cofiaf fy mod wedi fy medyddio, ac mi ymwrolaf".

*Y Parchedig Martin Evans-Jones*

## 2. Beth yw eich barn am y newidiadau yn y gyfraith ynglŷn â phriodas? – Llinos, Ceredigion

**Ateb Maryl**

Rhaid dweud bod agweddau tuag at bobl hoyw wedi brasgamu ymlaen dros y blynyddoedd diwethaf. Gallaf ddeall pam bod rhai pobl yn ei chael yn anodd dygymod â'r cyflymder hwn ond mewn oes lle mae cymaint o bwyslais ar gydraddoldeb ni allaf weld problem. Mae Duw yn caru pawb ac ni wnaeth yr Iesu unrhyw wahaniaeth rhwng pobl pan ar y ddaear er fod llawer wedi gwgu ei fod yn treulio amser ymhlith rhai roedden nhw'n gredu oedd yn bechaduriaid.

Dywedodd Archesgob Cymru fod llawer o bobl wedi gwrthwynebu caniatáu i wragedd fod yn offeiriaid ond, wedi cael profiad o weinidogaeth merch, maent wedi newid eu meddyliau. Gall rhai wrthwynebu priodas hoyw ond beth fyddai'r sefyllfa pe byddent yn darganfod fod eu mab neu eu merch yn hoyw? Mae amser a gweld sut mae pethau'n gweithio yn aml yn newid agwedd pobl.

Os ydym ni'n honni ein bod yn wir Gristnogion pa hawl sydd gennym i farnu eraill? Mae yna bobl hoyw sy'n llawer gwell Cristnogion na nifer o'r rhai sy'n eu collfarnu. Onid neges y Beibl yw i ni fod yn oddefgar a charu ein cyd-ddyn, pwy bynnag y bo? Onid ydyn nhw'n haeddu hapusrwydd fel pawb arall?

*Maryl Rees*

**Ateb Martin**

Cymeraf mai cyfeirio rydych at y caniatâd i barau hoyw gael priodi. Rwyf yn ymlawenhau oherwydd mae'n hen bryd i ni gydnabod nad pechod sydd yn cyfrif am fod yn hoyw ond rhan annatod o'n natur ddynol ydyw. Fedrwch chi ddim beio neb am fod yn hoyw mwy na bod wedi'ch geni efo gwallt coch. O'r herwydd mae ganddynt gystal hawl i briodi â neb arall. Mae cymaint o barau gwahanrywiol yn priodi heb gael plant am wahanol resymau, fel nad hyn yw gwir bwrpas priodas bellach. Yn syml er mwyn caru ei gilydd y mae dau yn priodi ac yn dod yn "un corff" fel y dywedodd Iesu. Felly mae gan bâr hoyw yr un hawl i briodi yn fy marn i, ac mae'r Eglwys ar ôl yr oes yn rhoi sêl ei bendith arnynt i wneud hynny.

*Y Parchedig Martin Evans-Jones*

**Ateb Jennie**

Dwi'n cymryd dy fod ti'n sôn am y newidiadau sy'n caniatáu priodasau un rhyw, Llinos. Mae gen i nifer o ffrindiau da sy'n hoyw – merched a dynion – ac sydd mewn perthynasau hirdymor, gan gynnwys partneriaethau sifil. Mae un ohonyn nhw yn gyn-gydweithwraig yn y weinidogaeth, ac mae un arall yn weinidog mewn enwad arall. Mae'r ffrindiau yma wedi dysgu llawer i mi, ymhlith pethau eraill am gariad ac ymrwymiad. Mae'n rhaid i mi ddweud, felly, fy mod i'n croesawu'r newidiadau yn y gyfraith sy'n rhoi cyfle i'm ffrindiau, ac i eraill, gael priodi, i ymrwymo i'w gilydd am oes gan ddatgan eu cariad tuag at ei gilydd yn gyhoeddus. "Duw cariad yw" (1 Ioan 4: 8), a dwi'n credu ei bod hi'n bwysig cefnogi ein gilydd yn ein perthynasau cariadus. Oherwydd y newidiadau yn y gyfraith, mae hynny i gyd yn fwy posib i bobl hoyw, eu ffrindiau a'u teuluoedd, ac mae'n rhywbeth i'w groesawu, yn fy marn i.

*Y Parchedig Jennifer Hurd*

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

## ◆ Horeb, Llanrwst

**HELPU'R HOSBIS**
Ar 19 Mawrth fe gynhaliwyd 'Cinio Cynnil', sydd wedi dod yn arferiad blynyddol yn Llanrwst erbyn hyn, yn ysgoldy Horeb. Eleni mae'r cyfraniadau ariannol er budd Hosbis Dewi Sant a Thŷ Gobaith. Daeth cynrychiolaeth dda o gapeli ac eglwysi'r dref i gefnogi'r achosion teilwng hyn.

**YR HAF YN DOD**
Byddwn yn defnyddio'r capel unwaith eto o fis Ebrill ymlaen. Er mwyn arbed ynni buom yn cynnal yr oedfaon yn ystod misoedd y gaeaf yn yr ysgoldy. Mae amryw o'r aelodau wedi methu mynychu'r oedfaon yn ystod y gaeaf oherwydd llesgedd ac anfonwn ein cofion atynt i gyd.

**ŴYR BACH NEWYDD**
Llongyfarchiadau i'r Parchedig a Mrs Philip Barnett ar ddod yn daid a nain unwaith eto.

*Gohebydd – Eira Jones*

## ◆ Ardal De Gwynedd

**BRYSIWCH WELLA**
Anfonwn ein cofion at **Mrs Megan Jones**, Pensarn, Efailnewydd ac at **Mr Robert Jones**. Mae'r ddau yn aelodau ffyddlon yn Seion, Pwllheli.

**ER COF AM MRS JENNIE JONES, PORTHMADOG**
Bu farw Mrs Jennie Jones, 5 Godre'r Gest, Porthmadog, yn 98 oed. Ganwyd hi yn Nhregarth ym Medi 1915, yn ferch i deulu o chwarelwyr. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda, ac yn ddiweddarach cymhwysodd ei hun fel teipydd llaw-fer. Ym 1937 llwyddodd i basio arholiadau'r Gwasanaeth Sifil. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n gweithio i'r Morlys yn Llundain fel arolygwr teipyddion.

Yn ystod ymweliad â Phorthmadog, cyfarfu â'i darpar ŵr, David Ellis Jones o Gricieth, oedd yn gwasanaethu fel clerc gyda William George a'i Fab, cyfreithwyr, ar y pryd. Ar 23 Hydref, 1943, tra roedd Mr Jones yn dal i wasanaethu fel swyddog gyda'r Llynges, priodwyd y ddau yn Shiloh, Tregarth. Ar ddiwedd y rhyfel, ymsefydlodd y ddau yn Stryd Snowdon, Porthmadog. Ym mlynyddoedd cynnar eu priodas, bu Mrs Jones yn cadw Gwely a Brecwast ac wedi hynny bu'n cadw siop. Yn ystod plentyndod ei dau blentyn, Carol a Philip, bu'n berchennog Cegin Kandy ger y pictiwrs ym Mhorthmadog.

Bu Mrs Jennie Jones yn aelod ffyddlon iawn yng nghapel Ebeneser, Porthmadog. Bu'n gymorth mawr i'w gŵr, ysgrifennydd ac un o ymddiriedolwyr y capel, adeg dymchwel yr hen gapel a throi'r festri'n addoldy newydd ym 1985.

Yn ystod ei bywyd hir fe fwynhaodd grwydro ac ymweld â llawer rhan o'r byd. Bu'n weithgar gyda'r Lleng Brydeinig ac yn aelod brwd o Glwb Mynydda Porthmadog. Bu'n byw'n annibynnol nes oedd hi'n 97 oed a phan oedd yn 95 ymddangosodd ar S4C fel un o'r gyrwyr hynaf oedd yn siarad Cymraeg yng Nghymru.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i merch Carol a'i hŵyr Talwyn a phawb arall o'r teulu. Erys atgofion melys amdani.

*Gohebydd – W. Arvon Roberts*

## ◆ Horeb, Croesoswallt

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**
**O Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala**
Ar Ionawr 20fed yn Horeb gyda Geraint Pritchard yn llywyddu, croesawyd Goronwy Jones, Bwlchydonge, a'i ferch Awel. Bu'r ddau yn cerdded Taith Mari Jones o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala yr haf diwethaf. Cawsom sgwrs ddifyr iawn, ac roeddem wedi dotio at y lluniau ac at yr enwau hyfryd ar y ffermydd ar hyd y daith.

**Crwydro'r Byd**
Yn Seion ar Chwefror 3ydd gyda Tegwyn Williams yn llywyddu, croesawyd Rhoswen Charles i siarad am ei gwyliau yn Georgia ac Armenia. Mae cofgolofn yng Nghaerdydd er cof am bobl Armenia a gafodd eu lladd yn 1915. Mae'r ddwy wlad yma ar y ffin â Rwsia, ac mae Georgia yn boblogaidd gan bobl Rwsia fel man i dreulio eu gwyliau. Diddorol yw clywed am y llefydd y mae Rhoswen yn ymweld â nhw.

**Ysgol Plant y Brics**
Cawsom gyfarfod yn Horeb ar Chwefror 17eg dan lywyddiaeth Melfyn Evans. Y gwestai oedd Edgar Lewis, Wrecsam, ond yn enedigol o Gwm Nant yr Eira yn Sir Drefaldwyn. Mae'n un o Ymddiriedolwyr Ysgol Plant y Brics yn Kathmandu, Nepal, ac yn codi arian i dalu i athrawon a phrynu nwyddau ysgol i'r plant. Roedd y plant yn arfer gwneud brics ar yr adeg sych o'r flwyddyn nes i ysgol gael ei sefydlu iddynt yn y flwyddyn 2000.

**Gŵyl Ein Nawddsant**
Buom yn dathlu Gŵyl Dewi yn ysgoldy Seion gyda Brenda Williams yn llywyddu. Y gŵr gwadd oedd Ieuan ap Siôn o Dreffynnon a fu'n dweud hanes ei fywyd cerddorol. Estynnwyd gair o ddiolch am noson bleserus gan Eurwyn Jones, Is-Lywydd y Gymdeithas, a chanwyd Hen Wlad Fy Nhadau i ddiweddu.

**CYMORTH CRISTNOGOL**
Trefnwyd cyfarfod yn ysgoldy Seion fore Llun Chwefror 3ydd. Llywyddwyd gan y Parchedig Raymond Hughes, Llanrhaeadr. Cyflwynwyd Anna Jane o Gaernarfon, swyddog gyda Chymorth Cristnogol, gan Mrs Rhiannon Lewis, Llansilin. Cafwyd sgwrs ddifyr ganddi a thrafodwyd gwahanol ffyrdd o godi arian at y gronfa. Dangoswyd dwy ffilm fer ar Dde Sudan a Colombia, De America. Roedd cynrychiolaeth o Lanfair Caereinion, Llanfyllin, Llanrhaeadr, Llansilin ac o'r dre. Paratowyd paned gan Brenda Williams a Iola Evans.

**GWAELEDD**
Mae Mr Trevor a Mrs Blodwen Morris wedi ymgartrefu yn The Old Vicarage Gobowen ers tua blwyddyn bellach, ond nid yw Mrs Morris wedi bod yn dda yn ddiweddar. Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan iddi, a'n cofion at y ddau.

**CYDYMDEIMLO**
Bu farw Mrs Eilwen Kendrick, Willow Gate, Castle Street yn sydyn. Ychydig wythnosau wedyn, bu farw ei phriod, Mr Jim Kendrick, ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty. Cydymdeimlwn â Rebecca a Dale a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar Mr Tony Peake. Bu'r ddau deulu yma â chysylltiad agos iawn â chapel Horeb.

Bu farw Mr Emrys Meirion Roberts, Bridgeman Court, yn 89 mlwydd oed. Brodor o Benygarnedd, yr olaf o ddeg o blant Tynewydd, aelod yng nghapel Llansanffraid. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Bu farw Mr Glyn Jones mewn cartref gofal yn Wrecsam. Brodor o Lanwddyn, ond wedi byw yn Pant ger Croesoswallt ers llawer blwyddyn ac yn aelod ffyddlon yn Horeb. Cydymdeimlwn â'i ferch Heulwen a'r teulu yn eu profedigaeth. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Beryl Roberts, Maserfield, ar farwolaeth ei chwaer a'i brawd yng nghyfraith, sef Mr a Mrs Evan O Richards, Llangynog. Cydymdeimlwn yn gywir â Melfyn a Brenda Evans sydd wedi colli brawd yng nghyfraith, y diweddar Hywel Hughes, Penygarnedd.

**SYNOD**
Cynhaliwyd cyfarfod Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru yn Horeb Croesoswallt ddydd Sadwrn Ebrill y 5ed. Daeth cynrychiolaeth i'r cyfarfod o wahanol ardaloedd yng Nghymru, yn weinidogion a lleygwyr, dan gadeiryddiaeth y Parchedig Jennie Hurd. Paratowyd bwyd i bawb ar y diwedd gan chwiorydd Horeb.

**PREGETHWYR**
Cawsom y fraint o wrando ar y cyfeillion canlynol o bulpudau Horeb a Seion yn

# CAPEL NI YN EGLWYS IESU

ddiweddar a mawr yw ein diolch iddynt am eu gwasanaeth: Mrs Beryl Vaughan, Y Parchedig Jennie Hurd, Y Parchedig Gwilym O Jones, Mr Richard Jones, Mrs Elizabeth Jones, Y Parchedig William Davies, Y Parchedig Tom Wright, Y Parchedig Leonard Williams, Mrs Dilys Jones, Dr Philip Davies a'r Parchedig Rhys ap Ogwen Jones.

*Gohebydd – Eurwyn Jones*

## ◆ Ardal Bathafarn

**CYDYMDEIMLO**
Cydymdeimlwn yn ddiffuant â theulu'r diweddar John Jones, gynt o Arvonia, Stryd Mwrog. Cafodd fyw i oedran teg sef 99 oed. Bu ef a'i ddiweddar briod yn ffyddlon yng nghapel Bathafarn am flynyddoedd lawer. Mae'n siŵr y bydd sawl un o'r cyffiniau yn eu cofio'n cadw'r Bar Llaeth ar Sgwâr Rhuthun. Diolch am yr atgofion da amdanynt.

**Y GRAWYS**
Roeddem yn falch o gael dod at ein gilydd fel aelodau o wahanol eglwysi yn nhref Rhuthun yn ystod tymor y Grawys – cyfle gwerthfawr i fyfyrio gyda'n gilydd ar adeg bwysig iawn yn y Calendr Cristnogol. Diolch i'r rhai a baratôdd y cinio cynnil.

**SUL Y BLODAU**
Bob blwyddyn byddwn yn edrych ymlaen at yr achlysur hwn ar ddechrau'r Wythnos Sanctaidd. Da oedd gweld llawer o aelodau'r Ardal a ffrindiau eraill yn ein gwasanaeth arbennig ar Sul y Blodau. Cafwyd gair o groeso gan Elizabeth ac roedd y defosiwn yng ngofal Dafydd, Elwyn a Marian. Arweinydd y gweithgareddau oedd Siôn Hughes a chafwyd eitemau swynol iawn gan Megan, Jessica a Begw Roberts. Hen daid i Megan, sef y diweddar R.H. Williams, Graigfechan, a sefydlodd y gwasanaeth arbennig yma, er cof am ei fab bach. Cafwyd eitemau cerddorol hefyd ac unawd ar y piano gan deulu dawnus Tan Llan, Llannefydd. Siân, Tŷ Ucha'r Llyn, oedd yn cynrychioli Gwyddelwern ac Enid ar ran Glyndyfrdwy. Diddorol ac addysgiadol oedd anerchiad Llinos Mary Jones, Gwyddelwern, sef pennaeth Ysgol Glanrafon, yr Wyddgrug. Cyfeiliwyd gan Rhian Roberts a diolchwyd gan Dafydd, yna roedd y diweddglo yng ngofal y Parchedig Martin Evans-Jones.

Ymlaen wedyn i Ganolfan Awelon lle cawsom luniaeth blasus. Diolch i Mairwena Mosford, Meta, Gwen a Beryl a phawb a'u cynorthwyodd. Roedd yn gyfle gwych i fwynhau cwmni'n gilydd. Rhoddwyd blodau hardd yn y capel gan Rhian Roberts a blodau'r gwanwyn ar y byrddau yn Awelon gan Bob ac Elizabeth.

**Y GYMDEITHAS**
Cafwyd noson ddiddorol iawn cyn y Pasg ar y thema "Fy hoff farddoniaeth neu lyfr". Diolch i'r rhai fu'n trefnu.

**ANRHYDEDD**
Llongyfarchiadau calonnog iawn i Lyn Hughes, aelod a swyddog ffyddlon iawn yng nghapel Rehoboth, Corwen, ar dderbyn medal R.V.S am ddosbarthu "pryd ar glud" am dros ugain mlynedd.

**GWASANAETHAU**
Diolchwn i'r Parchedig Martin Evans-Jones, Llinos Mary Jones, y Parchedig Raymond Hughes a'r Parchedig T. Evans Williams am eu gwasanaeth gwerthfawr yn ein hoedfaon. Ein cofion anwylaf at yr aelodau sydd yn methu bod gyda ni oherwydd gwaeledd.

*Gohebydd – Elizabeth Jones*

Un od 'di organydd Llanwnoeth
Cyfeilia mewn menig - ddyn annoeth!
ac os ydi hynny
yn gwneud i chi wenu
Mae'n chwarae y pedals yn droednoeth!
*– R.J.*

## ◆ Ebeneser, Dolgellau

**DIWRNOD GWEDDI CHWIORYDD Y BYD**
Eleni, ar Fawrth 7fed, cynhaliwyd dwy Oedfa Undebol yn Ebeneser i ddathlu Diwrnod Gweddi Chwiorydd y Byd. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal Oedfa Saesneg ar gyfer yr achlysur, a hynny wedi cais oddi wrth aelodau Saesneg yn y dref.

Y siaradwraig yn yr Oedfa Saesneg oedd y Parchedig Beth Bailey, Dyffryn Ardudwy, ac yn yr Oedfa Gymraeg, anerchwyd ni gan ein Cadeirydd, y Parchedig Jennie Hurd. Kay Duggan ac Eluned Williams a gymerodd y rhannau arweiniol yn y ddwy Oedfa. Roeddent yn oedfaon hyfryd wedi eu paratoi gan Ferched yr Aifft. Cawsom fwynhau cwmni'n gilydd dros baned wedyn.

**LLONGYFARCHIADAU**
Yng Nghaernarfon ar Fawrth 20fed derbyniodd Mr Paul Duggan wobr gan yr Uchel Siryf am ei ymdrech a'i ddyfalbarhad fel Gwyliwr Glannau De Gwynedd i'r Heddlu. Mae Paul yn selog iawn yn Ebeneser ac yn barod ei gymwynas bob amser.

**GWELLHAD**
Dymunwn wellhad buan i'r Chwaer Eluned Williams yn dilyn llawdriniaeth ar ei llygaid yn ddiweddar.

**YSBYTY**
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Mr Hugh Humphreys sydd yn Ysbyty Maelor, Wrecsam.

*Gohebydd - Gwyneth Meredith*


## ◆ Bethel, Amlwch

**GWASANAETH BENDITHIOL**
Dymunol iawn oedd cael croesawu Cadeirydd Synod Cymru, y Parchedig Jennie Hurd, i'n plith ar fore hyfryd o Ebrill. Cafwyd bendith o'r gwasanaeth a mwynhawyd cwmni Jennie dros baned ar ddiwedd yr oedfa. Edrychwn ymlaen at ei chael i gynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn yr Hydref.

**COLLED**
Trist oedd ffarwelio â Rita Hughes, aelod hynaf yr Eglwys, yn 95 mlwydd oed. Bu'n aelod ffyddlon tra roedd yn gallu. Gofalwyd yn dyner amdani gan ei merch, Jean. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu colled.

*Gohebydd – Len Thomas*

## ◆ Ebeneser, Eglwysbach




**PEN-BLWYDD ARBENNIG**
Llongyfarchiadau i Mrs Elizabeth Davies ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ym mis Ebrill. Er nad yw ei hiechyd yn dda mae'n dal i fyw yn ei chartref gyda chymorth gofalwyr. Cafodd ddiwrnod arbennig gyda llu o ymwelwyr ac anrhegion. Yn wreiddiol o Lan Conwy lle bu'n aelod ffyddlon o Gapel Tyn y Celyn, daeth i fyw i Eglwysbach ar ei phriodas â'r diweddar Hugh Lloyd Davies. Mae Mrs Davies yn hoff o gael hanes digwyddiadau'r capel a chael sgwrs â'r Parchedig Philip Barnett pan fydd yn galw heibio.

*Gohebydd - Charles Crapper*

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU


*St. Paul, Aberystwyth*

## ◆ Salem, Rhyd-y-foel

**Y GYMDEITHAS**

Nos Iau Mawrth 13eg fe gynhaliwyd noson i ddathlu gŵyl ein nawddsant, yn festri Salem. Ein gŵr gwadd eleni oedd Mr N. Closs Parry. Cafwyd sgwrs ddifyr ganddo yn olrhain hanes ei fywyd cynnar yn ardal Llanberis. Pleser mawr i ni hefyd oedd cael cwmni priod Mr Closs Parry yn ein dathliad. Fe gawsom swper blasus hefyd - diolch yn fawr i'r rhai fu'n paratoi.

**TRWSIO A CHYNNAL**

Yn dilyn gwyntoedd a stormydd y gaeaf roedd angen cynnal a thrwsio o amgylch adeilad Salem. Cyflawnwyd y gwaith gan adeiladwr lleol sef Mr Bob Roberts. Mae ein dyled yn fawr hefyd i gwmni "Western Platforms" am y defnydd o'u peiriannau arbennig er mwyn cyrraedd y landeri uchel i'w glanhau - y rhain oedd yn achosi'r holl drafferthion.

*Gohebydd – Siân Price*

## ◆ St. Paul, Aberystwyth

**DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD**

Cynhaliwyd y gwasanaeth cydenwadol Cymraeg yng Nghanolfan St Paul eleni, o dan arweiniad Miss Menna Evans. Gwragedd o'r Aifft oedd wedi paratoi'r gwasanaeth, ar y thema 'Ffrydiau yn yr Anialwch' ac yn seiliedig ar hanes y wraig o Samaria yn cyfarfod â'r Iesu a'r modd y gwnaeth y dŵr bywiol newid ei bywyd hi a'i holl gymuned. Roedd pwyslais drwy'r gwasanaeth ar y modd y mae'r eglwysi Cristnogol o wahanol enwadau yn un yng Nghrist. Cafwyd anerchiad perthnasol a chyfoes gan yr Athro Jane Aaron, yn seiliedig ar hanes y wraig o Samaria ond yn cyfeirio hefyd at wraig sydd wedi ei phenodi yn ddiweddar yn arweinydd ar un o bleidiau gwleidyddol yr Aifft. Mae hi'n Gristion ac yn cynnig gobaith newydd mewn gwlad lle mae hanes hir o wrthdaro ac anobaith.

**Y GROGLITH A'R PASG**

Ar fore Dydd Gwener y Groglith bob blwyddyn mae capeli ac eglwysi Cymraeg Aberystwyth yn cyd-addoli. Cynhaliwyd y gwasanaeth eleni yng Nghanolfan St Paul. Cafwyd gwasanaeth bendithiol dan arweiniad ein gweinidog, y Parchedig James Patron Bell. Yn ôl yr arfer bob blwyddyn wedi'r gwasanaeth trefnwyd Gorymdaith o Dystiolaeth trwy Aberystwyth.

Ar fore Sul y Pasg cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog yng Nghanolfan St Paul ar gyfer y cynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg sy'n addoli yn yr adeilad. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Arolygwr y Gylchdaith Saesneg, y Parchedig Roger Hides. Daeth ef a'i wraig, y Diacon Sara Windsor Hides, i Aberystwyth fis Medi diwethaf. Mae Sara erbyn hyn yn Gaplan yn Hafan y Waun, sef y Cartref Preswyl Methodistaidd yn Waunfawr, Aberystwyth. Mae Roger a Sara yn dysgu Cymraeg a da oedd clywed Roger yn arwain y gwasanaeth hwn. Darllenodd Miss Menna Evans o'r Ysgrythur ac offrymodd Mrs Delyth Evans weddïau yn y Gymraeg.

*Gohebydd - Lionel Madden*

## ◆ Ebeneser, Trefor, Môn

**COLLED**

Bu farw Mrs Kitty Owen, Gardd y Plas, Llanddeusant yn dilyn gwaeledd hir. Roedd yn wraig i'r diweddar Mr Sam Owen a fu'n ysgrifennydd y capel am flynyddoedd lawer. Cydymdeimlwn â theulu Plas Newydd yn eu colled.

**CYFARFOD ANRHEGU**

Roedd yn bleser i rai ohonom o Drefor fod yn bresennol yng Nghyfarfod Anrhegu Mr Merfyn Jones yn Ebeneser, Caernarfon yn ddiweddar. Cafwyd cyfarfod hwyliog a hyfryd. Rydym ni yn Ebeneser, Trefor yn hynod ddiolchgar iddo am ei holl gymwynasau a'i gyfeillgarwch ar hyd y blynyddoedd. Dymunwn bob bendith iddo ef a Mrs Jones.

**CADEIRYDD Y SYNOD**

Brynhawn Sul Ebrill 27 cafwyd gwasanaeth ar y cyd hefo aelodau capel Maelog, Pencarnisiog, gyda'r Parchedig Jennie Hurd yn pregethu. Gwyddom ei bod yn awyddus i ymweld â chynifer o'r capeli yn y Gylchdaith ag y gall a chyfarfod yr aelodau. Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am deithio mor bell i gynnal yr oedfa a chawsom wasanaeth bendithiol yn canolbwyntio ar Tomos yr "anghredadun". Ar ddiwedd y cyfarfod cawsom de prynhawn a chyfle i sgwrsio. Diolch i aelodau Capel Maelog am y te a'r croeso.

*Gohebydd – Carys Thomas*

## ◆ Bethel, Rhiwbeina, Caerdydd

**BORE GOFFI**

Dydd Mawrth Ebrill 8fed, cynhaliwyd bore goffi ym Methel er budd Ysbyty Felindre, Yr Eglwys Newydd. Braf oedd gweld yr holl fyrddau gwerthu cynnyrch cartref a nwyddau amrywiol wedi'u paratoi gan amryw o'r aelodau. Cafwyd cefnogaeth ardderchog i'r fenter hon gydag aelodau a chyfeillion yn mwynhau'r cymdeithasu o gwmpas y byrddau. Credir mai dyma'r tro cyntaf i achlysur o'r fath gael ei gynnal yn adeilad y capel. Diolchwyd i bawb gan y gweinidog, y Parchedig Evan Morgan. Erbyn hyn mae siec o £540 wedi ei throsglwyddo i'r ysbyty.

**SUL Y PASG**

Fore Sul y Pasg cynhaliwyd gwasanaeth ar y cyd yn Salem (P) Treganna gyda'r Parchedig Evan Morgan yn gwasanaethu.

**GWAELEDD**

Dymunwn yn dda i nifer o'n haelodau sy'n dioddef afiechyd ar hyn o bryd.

*Gohebydd - Gwilym E Roberts*

# CNOI CIL

gan GWYNDAF ROBERTS

Mae'n demtasiwn o dro i dro i ystyried sut fath o fywyd a fyddai gennym pe na byddai rhai o ddigwyddiadau hanes wedi digwydd o gwbl. Ystyriwch am foment beth fyddai'n hanes pe byddai Harri Tudur wedi cael ei ladd ar faes Bosworth, 22 Awst 1485. Fe fyddai hyn wedi bod yn gwbl bosib gan mai byddin fach oedd gan Harri Tudur ac nid oedd sicrwydd hyd y foment olaf y byddai'r rhai a addawodd gymorth iddo yn ffyddlon pan ddelai'r foment fawr. Ni fyddai llinach y Tuduriaid wedi bodoli na sôn am Harri'r VIII a'i fynych wragedd. Ni fyddai Elisabeth I wedi ymddangos yn ein llyfrau hanes. Ni ŵyr neb a fyddai'r iaith Gymraeg wedi goroesi heb y gymwynas a wnaed iddi trwy gyfieithu'r Beibl yn 1588 yn ystod teyrnasiad Elisabeth. Gallasai prif iaith y gwledydd hyn fod yn Sbaeneg.

Os yw troadau bywyd rhai o ffigyrau mawr hanes yn bwysig, teg fyddai honni bod y dewisiadau a gymerwyd gennym ni'r bobl gyffredin wedi bod yn dyngedfennol hefyd. Saer maen a fyddwn i wedi bod oni bai i 'nhad ddigwydd sôn wrth Mr Conwy Roberts (brawd y cerddor Osborne Roberts) fy mod ar fin gadael yr ysgol ac yn chwilio am waith. Fe fu Conwy Roberts yn gweithio cyn ymddeol yn Swyddfa Treth Incwm Bae Colwyn ac fe wyddai fod agoriad yno i rai i weithio fel swyddogion treth. Cefais fy nerbyn ac mae'r gweddill yn hanes fel y dywedir. Pe bawn wedi mynd i weithio at berthynas fy nhad fel prentis saer maen, ni fyddwn wedi cael cyfle i adnabod Cymry da Lerpwl na dod i adnabod pobl unigryw Bethesda nac ychwaith troi ymhlith trigolion mwyn Maldwyn.

Ni wn a yw'n dderbyniol bellach i sôn am ragluniaeth ond rwy'n sylweddoli bod dylanwadau lu wedi bod ar waith dros ganrifoedd maith i ddod â mi a phawb arall i'r man a'r lle y cawn ein hunain ynddo yn awr. Aeth llawer o'r dylanwadau hyn ar goll yn niwl amser ond fe ddaw o dro i dro adlais o ddigwyddiadau'r gorffennol yn ôl i'n synnu a'n rhyfeddu.

O dan ddylanwad John Huss, a fu farw yn 1415, fe ffurfiwyd enwad Protestannaidd sef Eglwys neu Gymuned y Frawdoliaeth (*Unitas Fratrum* yn Lladin). Erbyn heddiw rydym yn fwy cyfarwydd â hwy fel yr Eglwys Forafaidd. Cawsant eu herlid yn ddidrugaredd ac, yn 1722, fe gafodd carfan ohonynt loches yn Sacsoni, ar dir yn perthyn i'r Iarll Nicholas von Zinzendorf. Ymhen amser daeth rhai ohonynt i Lundain ac yn wir fe fu cais ganddynt, na fu'n llwyddiant mawr, i sefydlu cenhadaeth yng ngogledd a de Cymru. Ond yn Llundain, a hynny yn eu capel yn Fetter Lane y daeth Hywel Harris a John a Charles Wesley i'w hadnabod a dod o dan eu dylanwad am beth amser. Un o roddion y Morafiaid i'n cyndeidiau oedd eu canu brwdfrydig. Bu ganddynt lyfr emynau ers 1501 ac ar y blaen i bawb yn defnyddio offerynnau cerdd ac organau yn eu capeli. Byddai'r gyn-ulleidfa ar eu heistedd yn canu emyn ar ôl emyn am hydoedd.

Nodwedd arall o ddefosiwn y Morafiaid oedd eu bod, o fewn eu cymunedau clòs, mewn mannau fel Fulneck, Ockbrook a Bedford, yn cyd-fyw ac yn sefydlu dosbarthiadau o dan ofal blaenor. Bu'r 'class' yn rhan o fywyd Wesleaidd am gyfnod maith ac nid yw wedi marw yn gyfan gwbl o'r tir eto.

Bu'r Morafiaid o dan farn llawer am ddefnyddio'r coelbren yn ôl dull yr Eglwys fore (gweler Actau 1: 24-26). Yn anffodus fe gamddefnyddiwyd yr arfer gan rai o'r arweinyddion. Cyn rhuthro i gondemnio eu dulliau rhaid cofio bod rhai o'n tadau yn agor y Beibl ar hap ac yn gobeithio y byddai'r adnod gyntaf a welid ganddynt yn arwyddo dymuniad ac ewyllys Duw.

Mae gan y Morafiaid eglwysi hyd heddiw, bach o ran nifer, ond ni ellir llai na meddwl y bu eu dylanwad yn llawer iawn mwy na'u maint dros y canrifoedd. Efallai y dylai enwadau bach Cymru gadw hynny mewn cof wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Y Cadeirydd yn ymweld â'r gwahanol Ardaloedd**

| Mehefin | | Gorffennaf | |
|---|---|---|---|
| 1 | gwyliau | 6 | Y Gynhadledd Fethodistaidd |
| 8 | i'w drefnu | 13 | Bathafarn a Llyn Efyrnwy |
| 15 | De Gwynedd | 20 | Morgannwg |
| 22 | Glannau Meirion a Dyfi | 27 | Dyffryn Conwy |
| 29 | Y Gynhadledd Fethodistaidd | | |

***Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl***


HYSBYSIAD

**A OES HEDDWCH?**

***Cynhelir cynhadledd i drafod rhyfel a heddwch***

**Dydd Sadwrn 7 Mehefin 2014 yn y Morlan, Aberystwyth, 10.30–4.30**

*Siaradwyr:*
Jill Evans ASE, Aled Huw Thomas (Cyn Uwch Gaplan y Fyddin)
Yr Athro Ken Booth (Prifysgol Aberystwyth),
Guto Prys ap Gwynfor (Llywydd Cymdeithas y Cymod) a'r darlledwr Dewi Llwyd

**Pris £5**

Am fanylion pellach ac i gofrestru, ffoniwch **029 20627465** neu e-bostiwch **mari@ebcpcw.org.uk** **<mailto:mari@ebcpcw.org.uk>**


# DATBLYGU EIN GALWAD

Ers 2000, mae'r Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain wedi disgrifio ein galwad o dan bedair thema, sef **gwasanaeth, dysgu a gofalu, efengylu ac addoliad**: cynllun "Ein Galwad". Mae'r pedair thema yn ymddangos ar bob tocyn aelodaeth ac maent hefyd yn sylfaen i bob polisi a gweithgaredd yn yr eglwys.

Yn Synod Cymru, buom yn trafod ein galwad unwaith eto yn ddiweddar yn y Pwyllgor Polisi a Chyfarfod y Gylchdaith, ymhlith llefydd eraill. Mae'n dda trafod, ond mae'n rhaid gweithredu hefyd. Gyda chefnogaeth y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Polisi, mae'r Synod wedi mabwysiadu proses i ni ei dilyn fel y gallwn ddatblygu ein galwad.

Dros y pedair blynedd nesaf o fis Medi 2014 ymlaen, mae'r Synod wedi penderfynu dewis un o'r pedair thema i ganolbwyntio arni ym mhob blwyddyn eglwysig. Bydd y thema yn cael ei dewis yng nghyfarfod y Synod. Wedyn, rhwng y Synod a'r mis Medi canlynol, bydd y capeli a'r ardaloedd yn cael eu gwahodd i ystyried dewis gweithgaredd(au) perthnasol i'w datblygu yn eu bywydau fel cymunedau Cristnogol yn ystod y deuddeg mis sy'n dilyn. Bydd yn bosib gwneud rhywbeth yn ecwmenaidd, dros ffiniau enwad neu iaith, fel grŵp o gapeli neu ardal, neu mewn unrhyw fodd sy'n addas i'r cyd-destun. Does dim rhaid i'r gweithgareddau fod yn gymhleth – yn aml, mae rhywbeth syml yn gweithio'n well. Does dim rhaid, hyd yn oed, i unrhyw gapel neu ardal gymryd rhan. Ond hyblygrwydd sy'n bwysig – mae capeli ac ardaloedd yn rhydd i ddewis gwneud beth bynnag sy'n addas i'w cyd-destun nhw. Yn dilyn digwyddiad i'w lansio, gyda chyfle i ddod at ein gilydd i chwilio am weithgareddau posib, mae Delyth Wyn Davies, ein Swyddog Dysgu a Datblygu, a'r Parchedig Jennie Hurd, fel Cadeirydd, ar gael i helpu ac i gefnogi.

Fis Medi nesaf, cawn gyfle i ddweud wrth ein gilydd, fel ardaloedd, pa weithgaredd(au) a ddewiswyd ar gyfer y ddeuddeg mis sy'n dilyn. Yn ystod y flwyddyn, daw cyfle yn y Synod a chyfarfodydd eraill i rannu storïau am sut mae pethau'n mynd ac i ysbrydoli ein gilydd. Wedyn, fe ddaw'n amser dewis y thema nesaf. Ni fydd hynny'n golygu rhoi'r gorau i unrhyw weithgaredd sy'n digwydd eisoes – gall gweithgaredd newydd o dan y thema newydd weithio ochr yn ochr â'r hyn sy'n digwydd eisoes.

Tua diwedd y cyfnod o bedair blynedd, bydd yn bosib adolygu'r holl broses a meddwl beth i'w wneud nesaf er mwyn parhau i ddatblygu ein galwad yn y dyfodol.

Ar gyfer y flwyddyn 2014-2015, mae'r Synod wedi dewis thema Dysgu a Gofalu, er mwyn i ni ganolbwyntio ar dyfu yn ein ffydd a pharatoi ar gyfer datblygu'r themâu eraill. Dyma'r gwahoddiad i bob capel ac Ardal wrth i ni geisio datblygu ein galwad: beth ydych chi am ei wneud?

*Y Parchedig Jennie Hurd*

# COLOFN GERDD

gan GARETH BLAINEY

## 'MOR FAWR WYT TI'

Mae'r 'BBC iPlayer' yn wefan ddefnyddiol iawn – a dydw i ddim yn dweud hynny oherwydd fy mod i'n gweithio i'r BBC! Mae'r iPlayer yn ein galluogi ni i wylio rhaglenni teledu neu wrando ar raglenni radio ar ôl iddyn nhw gael eu darlledu. Wrth ddefnyddio'r iPlayer ar fy nghyfrifiadur rydw i wedi gwrando ar nifer o raglenni dogfen fu ar Radio 4 yn rhoi sylw i gerddoriaeth o bob math sydd wedi effeithio'n fawr ar bobl. Enw'r cyfresi o raglenni yw 'Soul Music' a chwarae ar eiriau yw hynny: fel arfer mae 'soul music' yn cyfeirio at ffurf o gerddoriaeth bop ond yn yr achos hwn mae'n deitl addas i raglenni sy'n sôn am 'gerddoriaeth i'r enaid' fel petai.

Yr emyn poblogaidd 'How Great Thou Art' yw testun un o'r rhaglenni. Dyma emyn rhif 140 yn 'Caneuon Ffydd' – 'Mor Fawr Wyt Ti' - ac mae'r geiriau wedi'u cyfieithu'n gampus i'r Gymraeg gan y Parch. E. H. Griffiths, cyfaill i'm diweddar dad y Parch. Erfyl Blainey. Cyfieithiad yw'r geiriau o'r fersiwn Saesneg o'r emyn gan Stuart Hine. Bu o'n cenhadu yn Nwyrain Ewrop yn y 1930au ac addasodd y geiriau Rwsieg oedd yn seiliedig ar gerdd gan fardd o Sweden, Carl Boberg. Ysgrifennodd Hine y llinell sy'n sôn am 'ru y daran ddofon' ym mhennill cyntaf yr emyn ar ôl iddo fod ynghanol storm o fellt a tharanau wrth iddo bregethu yn yr awyr agored.

Daw'r rhaglen i ben gyda David Darg yn siarad am y profiad a gafodd ar ynys Haiti ym Môr y Caribî yn 2010. Fo oedd cyfarwyddwr 'International Disaster Relief – Operation Blessing' ar y pryd ac aeth i Haiti ar ôl i'r ddaeargryn daro'r ynys gan ladd miloedd o bobl a gadael miloedd o blant heb rieni na chartrefi. Mae Darg yn dweud na wnaiff o fyth anghofio mynd i wersyll lle roedd tua saith cant o blant yn byw dros dro, ac er gwaethaf eu sefyllfaoedd gwelodd a chlywodd y plant yn morio canu 'Mor Fawr Wyt Ti' mewn Ffrangeg.

# *Defosiwn*

## Er cof am y Parchedig Iwan Lewis

Yn Rhagfyr 1992, roedd y golofn Ddefosiwn yn y *Gwyliedydd* o dan ofal y Parchedig Iwan Lewis. Ysgrifennodd o dan y pennawd 'Yn y Bywyd Marwol Hwn', sef geiriau o'r colect ar gyfer Sul yr Adfent: 'Hollalluog Dduw, dyro inni ras i ymwrthod â gweithredoedd y tywyllwch, ac i wisgo arfau'r goleuni yn awr yn y bywyd marwol hwn, yr ymwelodd dy Fab Iesu Grist â ni ynddo mewn gostyngeiddrwydd mawr.'

Noda fod yr Eglwys yn paratoi i ddathlu'r Geni gan feddwl am farwolaeth:

"Nid yw'r Cristion i geisio anghofio na diystyru angau ond ei wynebu'n eofn fel ffaith naturiol ac anorfod...Nid hawdd wynebu'r gelyn olaf mewn hyder a gobaith ac eto dyma'r ddawn a roddir inni trwy gredu yn yr Atgyfodiad Buddugoliaethus.

Dywed y Ffydd wrthym:

**'Ar ôl tywyllwch, goleuni;**
**Ar ôl gaeaf, gwanwyn;**
**Ar ôl marw, bywyd...'**

Yn ddall ac ar ei wely angau, canodd Sant Ffransis y geiriau anfarwol hyn am angau:

**'A thi, dyneraf angau'i hun**
**Sy'n gwylio i ddogn ein holaf ffun,**
**I'r Arglwydd, Halelwia!**
**Di ddygi adref blentyn Iôr,**
**Yr Arglwydd Grist aeth drwy dy ddôr**
**I'r Arglwydd, Halelwia!'"**

# Y CARIAD DIOLLWNG

gan ELWYN PARRY

Pan oeddwn yn blentyn tua diwedd y 1930au, roeddem yn byw yn y Rhondda Fach. Roedd yn arferiad cynnal Rali Plant, a olygai gyfarfod mewn gwahanol eglwysi yn eu tro, o Ferndale i lawr i'r Porth. Cofiaf un achlysur ym Moriah, Ynyshir, cyn yr Ail Ryfel Byd. Gwahoddwyd gweinidog yr oeddem ni blant yn hoff iawn ohono i arwain y Rali, sef Nantlais o Rydaman. Pregethwr plant, nad oedd yn bregethwr plentynnaidd chwaith. Cofiaf amdano'n awr fel un oedd yn medru cyffwrdd meddwl plentyn a'i gydwybod. Dysgodd inni bennill o emyn roedd wedi'i gyfansoddi y bore hwnnw ar ei ffordd o Rydaman. Roedd yn dod dros y Bwlch a hithau'n gwawrio a dyna pryd y canodd

"Gyda thoriad gwawr y bore,
O mor felys yw
codi'n llef a llafar ganu,
canu mawl i Dduw".

Y bregeth syml a gawsom gan Nantlais, yn seiliedig ar hanes gwinllan Naboth, oedd ar inni beidio â gwerthu ein treftadaeth. Soniodd am bethau na ellir eu gwerthu fel y breintiau a gawsom drwy ein tadau a'n mamau, a'r pethau na ellir eu prynu fel cariad. Dywedodd wrthym am ofal Duw drosom a'i gariad diollwng.

Achlysur cofiadwy arall i mi oedd bod yn Westminster Hall yn Llundain mewn Rali Ieuenctid, yn gwrando ar y Parchedig Donald Soper. Pregethodd am Dywyllwch a Goleuni ac fel testun cymerodd y cymal "a heb fod gennyf gariad". Dywedodd nad oedd y fath gariad â chariad Crist wedi bod o'r blaen ac na fydd byth gariad fel hyn eto. Ni all dim ein gwahanu oddi wrth gariad Crist – "mae Calfaria'n profi digon".

CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

## ◆ Capel Pendref, Yr Wyddgrug

**GWASANAETH Y PASG**
Eleni eto ar Sul y Pasg, cynhaliwyd Gwasanaeth Undebol y tair eglwys Gymraeg dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymraeg y dref. Gwasanaethwyd gan ein Cadeirydd, y Parchedig Jennie Hurd, a hi draddododd y bregeth a gweinyddu'r Cymun Sanctaidd, yn cael ei chynorthwyo gan y Parchedig J. Bryn Jones. Estynnodd ein hysgrifennydd, Mr Richard Francis Jones, ein croeso cynnes a diolchodd iddi am ei gwasanaeth gan ei llongyfarch hefyd ar ei Doethuriaeth. Daeth atgofion hyfryd inni am y cyfnod o bum mlynedd a dreuliodd Jennie gyda ni fel Arolygwr Cylchdaith y Glannau.

**YMDDEOL**
Bydd y Parchedig Graham Floyd, Gweinidog eglwys Annibynwyr Bethel, yr Wyddgrug, yn ymddeol ddiwedd Awst, sy'n golygu mai'r Parchedig Marc Morgan fydd yn gofalu amdanom ym Mhendref. Edrychwn ymlaen at gydweithio ymhellach â Bethel dan drefniant ecwmenaidd; mae cydweithio o'r fath yn sicr yn digwydd mewn llawer man, beth bynnag a ddigwydd o ganlyniad i'r Cyfamod y buom yn ei drafod yn gynharach.

**ER COF AM ANNIE ELINDA DAVIES**
Prin bod neb ohonom erbyn hyn sy'n Wesleaid yng Nghymru yn cofio'r foneddiges hon a fagwyd yng Nghorris Isa, ac a fu farw fis Hydref diwethaf yn 91 mlwydd oed. Ymddiheuraf am fod mor ddiweddar yn llunio'r deyrnged iddi gan mai'n ddiweddar y derbyniais y manylion. Aeth blynyddoedd heibio ers pan welais hi ddiwethaf ar ddiwedd y 40au.

Ganed Annie Elinda, (Linda i ni a'i hadnabu), a'i chwaer Olwen Jane ym Mron Dulas, Corris. Roedd eu rhieni Mr Evan a Mrs Annie Davies yn aelodau ffyddlon yng Nghapel Shiloh yn y pentref, lle bûm innau yn aelod am gyfnod byr. Annie oedd un o organyddion y capel a rhoddai wersi piano i amryw o blant yr ardal.

Treuliodd hi a'i darpar briod, Griffith John Morris o Lanbrynmair, ychydig flynyddoedd yn gweithio mewn ysgol yng Nghaerynwch ger Dolgellau. Gofalai Annie Linda am y plant a Griffith John yn garddio, yn ogystal â pharatoi ar gyfer bod yn gyfreithiwr. Yn ddiweddarach bu'n gyfreithiwr ym Machynlleth, Birmingham a Banbury. Bu marwolaeth Griffith John yn annisgwyl ac yn ergyd drom i Annie Linda. Penderfynodd symud yn nes at ei chwaer Olwen i Lancing ac yna i gartref preswyl ger Caergrawnt.

Ystyriaf hi'n fraint cael talu'r deyrnged fechan hon i Annie Linda, gan ddiolch i Dduw am ei bywyd a'i gwasanaeth fel un o ddilynwyr yr Arglwydd Iesu Grist.

*Gohebydd – Y Parchedig J. Bryn Jones*


*Saron, Bethel*

## ◆ Saron, Bethel, Arfon

Brynhawn Sul y Pasg bedyddiwyd Charles David Doy, mab ieuengaf Steven a Gwenan Doy. Gwasanaethwyd gan ein gweinidog y Parchedig Gwynfor Williams.

Yn y llun gwelir y tri bach sef Cadi Lois, sy'n ddwy a hanner oed, Charles David sy'n bedwar mis a hanner a'r brawd mawr pedair oed, Huw Lewis. Tu cefn iddyn nhw mae eu mam Gwenan, eu nain Mrs Delyth Williams, a Mrs Beryl Williams, hen nain. Pedair cenhedlaeth yn y llun felly, y teulu i gyd yn wir ffyddloniaid yn Saron. Pob bendith i'r teulu bach.

*Gohebydd – RJ*

## ◆ Eglwys Unedig Colwyn

**DYDD GWEDDI**
Cynhaliwyd Ddydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yng Nghapel y Rhos eleni a'r siaradwraig oedd y Parchedig Mair Jones. Yr arweinydd oedd Mrs Rhiannon Griffiths a Mrs Gwenda Roberts oedd wrth yr organ. Cynrychiolwyd Eglwys Unedig Colwyn gan Catherine, Nan a Marian.

**GENI**
Llongyfarchiadau i **Arfon a Gwen** ar ddod yn daid a nain am yr ail dro. Ganwyd Isabel Efa i Gwennan a Daniel ar Fawrth 16, chwaer fach i Iolo. Ein dymuniadau gorau i'r teulu oll.

**SYMUD**
Dymuniadau gorau i **Mrs Blodwen Jones**, Bay View gynt, sydd wedi symud i fyw i Fae Penrhyn yn ddiweddar. Dymunwn bob bendith iddi yn ei chartref newydd ac rydym yn falch ei bod yn gwella yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn wellhad buan i **Megan Williams** ac i **Catherine Goulden** ac anfonwn ein cofion caredig at bawb arall hefyd sydd yn wael ar hyn o bryd.

**DARLLEDU**
Ar Fai 19, bydd S4C yn recordio Dechrau Canu Dechrau Canmol yn Horeb.

**CADEIRYDD**
Pleser mawr oedd cael croesawu ein Cadeirydd y Parchedig Jennifer Hurd ar fore Sul Mai 4. Cawsom fore bendithiol iawn yn ei chwmni.

*Gohebydd – Rhiannon Jones*

## ◆ Ebeneser, Caernarfon

**DYMUNIADAU GORAU**
Mae **Lil Watkins** ar hyn o bryd yn aros gyda'r teulu yn Chatham, yn dilyn damwain. Mae ei sedd yn wag iawn yma yn Ebeneser ar fore Sul. Brysiwch adref, Lil! Edrychwn ymlaen hefyd at weld **Dorothy Pritchard** yn ôl ac yn holliach ac felly hefyd **Aelwen Morris** a **Merfyn Roberts.**

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i **Kate Jones,** Tryfan, ar ddathlu ei phen-blwydd yn naw deg mlwydd oed; i **Osian Gwyn Williams** ar dderbyn gradd B.A. dosbarth cyntaf

# CAPEL NI
## YN EGLWYS IESU

mewn awyrenneg; ac i **Dyfan Roberts** ar raddio gydag anrhydedd a chymhwyso fel R.G.N. Bydd Dyfan yn dechrau mewn swydd yn Ysbyty Glan Clwyd ar yr un pryd ag y mae ei frawd, Iwan, hefyd yn dechrau ar ei yrfa fel gweinyddwr yn yr un ysbyty.

**Y GROGLITH**
Ar ddydd Gwener y Groglith cynhaliwyd Oedfa Gymun undebol yn Ebeneser ac yn dilyn hynny orymdaith drwy'r dref gan aros yma ac acw i fyfyrio a chanu emyn. Am hanner dydd cyrraedd Eglwys y Santes Fair lle cynhaliwyd gwasanaeth hyd at dri o'r gloch y prynhawn. Roedd llawer wedi dod ynghyd ar yr achlysur, yn eu plith amryw o blant bychain.

**CYFARFOD ARBENNIG**
Daeth llawer o ffrindiau ynghyd i'r cyfarfod arbennig ar 7 Ebrill. Talwyd teyrngedau i Merfyn, dyn hynaws, boneddigaidd, di-stŵr. Yn ogystal â thystysgrif a thysteb, cyflwynwyd penillion a gyfansoddwyd i ddathlu'r achlysur gan y Prifardd Geraint Lloyd Owen, wedi'u fframio'n gywrain. Diolch i Olwen Hefina Hughes, Gwenllian Roberts a Carol Davis am drefnu'r lluniaeth, i Eira Owain am gyfeilio a threfnu'r blodau, ac i Megan Roberts am ofalu am yr holl drefniadau.

*Gohebydd – Branwen Edwards*

## ◆ Pisgah, Rhiwlas

**GWEINIDOG NEWYDD**
Bore Sul, Mawrth 16, roedd yr oedfa yng ngofal y Parchedig Gwynfor Williams, sydd yn awr yn weinidog arnom. Ar ran yr Eglwys croesawyd ef gan Gwyn a diolchwyd iddo.

**CYFARFOD ANRHEGU**
Cawsom fwynhau cyfarfod anrhegu Mr Merfyn Jones yn Ebeneser, Caernarfon, pan dalwyd teyrngedau haeddiannol iddo. Dymunwn yn dda iddo ac i Mary Christine Jones.

**GWELLHAD BUAN**
Mae John Huw Evans wedi bod yn yr ysbyty ers mis a mwy bellach ac mae'n dda cael dweud ei fod yn gwella'n dda erbyn hyn.

Hefyd dymunwn yn dda i Richard sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion at bawb arall sydd heb fod yn dda gan obeithio y gwnaiff haul cynnes y Gwanwyn godi eu calonnau.

*Gohebydd - Dilys Parry*

# Y COED



gan Dewi Rhys

Cawsom aeaf tymhestlog iawn eleni a gwnaed llawer o ddinistr i dai a gerddi. Bu'n rhaid derbyn hynny ac ysgwyddo'r gost o drwsio ac atgyweirio.

Un peth yn arbennig sydd wedi creu argraff arnaf i ac a fydd yn aros yn fy nghof. O gwmpas yr ardd acw mae pinwydd sy'n creu terfyn i'r safle. Gan fod y tŷ dros gant oed, teg yw credu bod y coed tua'r un oed. Collwyd rhai brigau yn ystod y gwyntoedd a bu'n rhaid llifio a thorri ambell goeden a fu'n hongian dros y ffordd fawr. Un bore ar ôl gwyntoedd cryfion sylwais fod pinwydden enfawr yn gwyro a phwyso yn erbyn un arall lai a theneuach.

O edrych yn fanylach, gwelais fod y gwraidd wedi codi o'r un fawr; roedd yn amlwg yn beryglus i'r tŷ drws nesa, yr ysgol gyfagos a'r ardd. Galwais am gymorth y 'meddyg coed' lleol – a oedd mor brysur fel na allai ymweld am wythnos.

Yn ystod yr wythnos honno, bûm yn teimlo'n ddigon pryderus ac yn archwilio ardal y gyflafan yn gyson. Am y goeden fach yr oeddwn yn poeni fwyaf, gan obeithio na fyddai'n gwegian o dan bwysau'r un fawr. Dros y cyfnod o ddisgwyl am y 'meddyg coed' teimlais fod y ddwy goeden rywsut yn synhwyro ein bwriad. Edrychai'r naill fel claf a'r llall fel rhywun yn mynd ati'n drwsgl i'w gario i le gwell. Y bychan dan straen o ddal y cawr a niweidiwyd mor hegr. Faint o nerth oedd gan yr un fach, denau ar ôl?

Pan ddaeth y meddyg cefais fy nhristáu o wybod nad y gwynt chwythodd y goeden gynta' ond mai'r holl law oedd wedi boddi'r gwreiddiau gan eu disodli ac arwain at y cwymp. Marwolaeth echrydus yw boddi a theimlais i'r byw dros y goeden yn dioddef hyn, a hithau wedi goroesi stormydd canrif gyfan.

Llifwyd y druan a bydd yn goed tân at y gaeaf nesa. Beth fydd tynged yr un fach, holais y meddyg...ond y cyfan a ddywedodd oedd 'cawn weld', gan mai'r llall oedd wedi ei chysgodi a'i gwarchod yn ystod yr holl stormydd.

Roeddwn wedi cael cyfle i ddiolch i'r hen binwydden cyn iddi ddiflannu. Hyd yn oed rŵan, byddaf yn edrych bob dydd i gyfeiriad y man lle bu, gan bendroni a meddwl pa fath o synhwyrau sydd gan y coed yma – yn enwedig yr un sydd wedi goroesi.

Oes, mae ci a chath acw ac mae'r anifeiliaid anwes yn sicr yn rhan o'r teulu. Ond, erbyn hyn, mae'r coed yn fwy na dim ond planhigion disylw.



# TARO'R POST

**Annwyl Ffion a Robin**

Diolch i Martin am roi darlun hwyliog o fywyd Vida [*Gwyliedydd* Rhag-Ion] yn yr un dref ag o yn Nigeria. Roeddem ein dwy yn gwerthfawrogi'r profiadau a gawsom yno a'r ffrindiau a wnawd o dros y byd; roedd Vida mewn cysylltiad â rhai ohonynt i'r diwedd. Roedd myfyrwyr y coleg eisoes yn athrawon ac am gael cymwysterau ychwanegol. Dyma ddarlun y dois ar ei draws yn ddiweddar; wedi'i gyflwyno iddi wrth iddi adael, "on account of her meritorious services as House Mistress and Education Tutor". (Rwyf wedi'i adael yn Saesneg am ei fod yn nodweddiadol.) Loes yw clywed am y digwyddiadau erchyll yng ngogledd y wlad a'r brifddinas y dyddiau hyn, a chrefydd wrth wraidd cymaint o'r casineb.

Rhoddwyd llwch Vida i orffwys yn Deneio, fel y dymunai. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Parch. Gwyn Thomas am fod yno efo ni. Mae stori Angharad Tomos am yr Hen Fynwent wedi fy symbylu i chwilio am fedd ein hen, hen daid, Joseph Roberts (1816–1897), un o sylfaenwyr Seion. Mae bedd Mrs Gwladys Davies, y Garn (perthynas i Angharad) yno hefyd, athrawes Ysgol Sul ar rai ohonom. Diolch am ein magwraeth; mae'n amhrisiadwy i mi y dyddiau hyn.

**Oddi wrth Wilma Roberts**

Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
The Methodist Church in Wales
Synod Cymru

# Beth sydd ar y gweill ...yn Synod Cymru? ...yn y Cyfundeb?

**Y CYNGOR**

Cynhaliwyd cyd-gyfarfod Synod Cymru a Wales Synod, sef Y Cyngor, yn Church Stretton ar yr 20fed o Fawrth. Trafodwyd gwaith y Rhwydwaith Dysgu Disgyblion a Gweinidogaethau (DMLN Cymru) sydd o dan adain y Cyngor. Soniodd y Parchedig Stephen Wigley am rai o'r pethau sy'n digwydd yn Wales Synod. Dywedwyd bod eglwys yng nghanol dinas Caerdydd wedi cau a bod y Gylchdaith yn defnyddio'r adeilad ar gyfer gwaith gyda cheiswyr lloches a mewnfudwyr. Soniodd y Parchedig Jennie Hurd hithau am ei gweledigaeth i Synod Cymru. Un cynllun sydd ar y gweill yn yr Eglwys Fethodistaidd ar hyn o bryd yw "Mwy na Chylchdaith" ac mae'n ddigon posib y gall Synod Cymru ddangos arweiniad yn hyn o beth.

Bydd yr ymateb i'r cynigion 'Tuag at Eglwys yn Uno' yn mynd i'r Gynhadledd ym mis Gorffennaf.

Llongyfarchwyd Jennie ar dderbyn ei Doethuriaeth ac ar ei darllediad ar 'Oedfa'r Bore' Radio Cymru ar 16 Mawrth.

**Y SYNOD YN CYFARFOD YNG NGHROESOSWALLT**

Croesawyd y cynrychiolwyr gan gyfeillion Horeb, Croesoswallt ar 5 Ebrill. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, y Parchedig Jennie Hurd. Cafwyd gair o groeso gan y Parchedig G O Jones ac arweiniwyd y defosiwn gan y Parchedig Gwyndaf Richards.

Dewiswyd y Parchedig Philip Barnett a'r Parchedig Ddr Ian Morris, Mr Arfon Williams a Mrs Siân Williams i'n cynrychioli yng Nghynhadledd 2015.

Trafodwyd cynnig mewn perthynas ag adroddiad Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru, i'w anfon i'r Gynhadledd yn ychwanegol at yr ymateb a gyd-drefnwyd gan y Cyngor. Y cynigydd oedd y Parchedig James Patron Bell a'r eilydd oedd y Parchedig Marc Morgan. Sylwedd y cynnig oedd pwysleisio pa mor bwysig ydyw i'r gwahanol enwadau dderbyn gweinidogaeth ordeiniedig ei gilydd. Hefyd, y dylid rhoi statws *awdurdodedig i wasanaethu* i holl weinidogion ordeiniedig y partneriaid cyfamodol yng Nghymru. Roedd mwyafrif helaeth o blaid anfon y cynnig ymlaen.

Yn ogystal â derbyn adroddiadau a gwybodaeth, cawsom gyflwyniad byr gan y Cadeirydd ar ei gweledigaeth ar gyfer "Datblygu ein Galwad". Cytunwyd i symud ymlaen a chynnal cyfarfod arbennig i lansio'r fenter yn St Paul, Aberystwyth ar y 10fed o Fai o 11yb tan 3yp.

Atgoffawyd pawb fod y Gymdeithas Hanes yn fyw ac yn iach a gofynnwyd am gyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf o "Bathafarn Bach". Diolchwyd i Robin am drefnu pererindod i ardal Bathafarn ar yr 17eg o Fai.

Daethpwyd â'r Synod i ben gyda phryd blasus wedi ei baratoi gan gyfeillion Horeb.

**SUL MHA**

Mae Sul arbennig Cartrefi'r Henoed ar **8 Mehefin** eleni. Gofynnir am gefnogaeth ariannol a gweddïau dros y gwaith. Mae'r elusen yn brysur wrthi'n datblygu mwy o wasanaethau i bobl sy'n dioddef o dementia, gan bwysleisio mor bwysig yw mwynhau profiadau, boed rhywun yn eu cofio neu beidio. Ar **21 Mehefin** cynhelir Garddwest Cartref Coed Craig am 2pm, yn Eglwys Fethodistaidd Saesneg Llandrillo-yn-Rhos. Mae angen arian i gynnal y bws mini y cyfrannodd Synod Cymru'n helaeth i'w brynu ychydig flynyddoedd yn ôl.

**CYNLLUN *THE ONE PROGRAMME***

Ers ei sefydlu yn 2009, mae cynllun cyffrous *The One Programme* wedi darparu cyfle i bobl ifanc wneud gwahaniaeth yn eu cymuned leol ac yn yr Eglwys Fethodistaidd yn gyffredinol. Fe'i sefydlwyd fel rhan o Strategaeth Ieuenctid yr Eglwys Fethodistaidd i alluogi pobl ifanc i gyfrannu yn eu ffordd werthfawr ac unigryw i fywyd yr Eglwys.

Mae'r cynllun yn gyfle gwych i bobl ifanc rhwng 16 a 23 oed gael dysgu a datblygu fel disgyblion i Iesu Grist. Yn aml iawn sonnir am 'gymryd blwyddyn allan' ond yn achos y cynllun hwn rhoddir pwyslais ar 'gymryd blwyddyn ymlaen' gan ddefnyddio'r flwyddyn i wneud gwahaniaeth. Gallwch ddarganfod rhagor am y cynllun trwy fynd i wefan yr Eglwys Fethodistaidd www.methodist.org.uk/mission/children-and-youth. Gallwch hefyd lawrlwytho'r llyfryn newydd 'Taking a Year On' sydd yn adrodd hanesion ysbrydoledig nifer o bobl ifanc yn rhannu eu profiad o fod ar y cynllun. Gofynnir i aelodau yn eglwysi Synod Cymru rannu gwybodaeth am y cynllun ac annog unrhyw bobl ifanc gymwys i ystyried ymgeisio am y swydd a hysbysebir yma ar dudalen 14.

**HELPWCH BLANT Y STRYD I GAEL GWELL BYWYD**

Cafodd plant y stryd o Nicaragwa gyfle i gystadlu yng Nghwpan y Byd ar gyfer Plant y Stryd yn Rio eleni. I'w galluogi i gymryd rhan, bu'r Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain yn brysur yn codi'r swm sylweddol o arian, £30,000, sydd ei angen ar gyfer y fenter. Y nod yw helpu rhagor o blant y stryd i gael gwell bywyd.

Mudiad byd-eang yw Cwpan y Byd Plant y Stryd, i roi cyfle ac amddiffyniad, pethau y mae gan bob plentyn hawl iddynt, i blant y stryd. Cyn pob gornest Cwpan y Byd a drefnir gan FIFA, bydd Cwpan y Byd Plant y Stryd yn uno plant y stryd o bum cyfandir i chwarae pêl-droed. Trwy bêl-droed, celf ac ymgyrchu, mae'r mudiad yn ceisio herio camsyniadau a syniadau negyddol am blant y stryd ar draws y byd. Ar Fawrth 28 2014, dechreuodd yr ornest a chynhadledd 10 diwrnod yn Rio de Janeiro, Brasil gydag 19 tîm yn cymryd rhan.

Meddai Tamara Wray, Llywydd Ieuenctid yr Eglwys Fethodistaidd, "Mae cefnogi timau Nicaragwa yng Nghwpan y Byd Plant y Stryd yn rhoi cyfle i Fethodistiaid weld y gallant wneud rhywbeth i newid bywydau pobl er gwell. Ni ddylai unrhyw blentyn fyth orfod byw neu weithio ar y strydoedd ac felly mae'n fraint i ni gael cefnogi'r achos hwn gan ei fod yn fwy na gêm yn unig."

Gallwch gyfrannu at yr achos da hwn trwy anfon sieciau'n daladwy i 'Amos Trust' i Methodist Church House gan nodi ar y cefn 'fundraising - Street Child World Cup – Nicaragua team' gyda'ch enw, neu trwy ddefnyddio cerdyn ar: www.methodist.org.uk/mission/street-child-world-cup a chlicio'r botwm 'donate now'. Diolch am bob cefnogaeth.

***3GENERATE***

Cynhelir *3Generate*, cynulliad plant ac ieuenctid yr Eglwys Fethodistaidd, yn The Pioneer Centre, Cleobury Mortimer, Sir Amwythig ar 14–16 Tachwedd 2014. Bydd y gynhadledd yn cychwyn am 7.30yh ar y nos Wener ac yn gorffen am 2.00yp ar y dydd Sul.

Penwythnos yw hwn i newid a herio'r eglwys, y byd a ni'n hunain. Bydd cyfle i archwilio pynciau perthnasol, gwneud ffrindiau, rhannu straeon, cyd-addoli, gweithredu, bod yn greadigol ac i fynegi barn. Mae yna dair ffrwd yn ôl oedran:

8-11 oed (Bl 4-6)
11-18 oed (Bl 7-13)
18-23 oed

Y gost fydd £90 (yn cynnwys prydau bwyd, llety a'r holl weithgareddau) a £30 i gynadleddwyr dydd ar y dydd Sadwrn (lleoedd cyfyngedig). Mae Synod Cymru yn barod i dalu hanner y gost i bob un fydd yn mynychu *3Generate*. Gellir gwneud cais am ad-daliad yn dilyn archebu lleoedd trwy gysylltu â'r Parchedig Jennifer Hurd, Cadeirydd Synod Cymru. Bydd modd archebu lle ar-lein o 7 Mehefin hyd at 30 Medi ar www.3generate.org.uk

# EBENESER, YSTUMTUEN

Nid yw'n debygol y byddwch yn digwydd mynd heibio i gapel Ebeneser, Ystumtuen: rhaid bwriadu mynd yno. I gyrraedd ato, rhaid troi oddi ar ffordd yr A44, sy'n rhedeg o Aberystwyth i Langurig, ryw ddwy filltir cyn cyrraedd Ponterwyd a dringo i bentref bychan Ystumtuen. Yma yn Ystumtuen y sefydlwyd yr achos Wesleaidd cyntaf yng Ngheredigion. Daeth Wesleaeth i'r ardal yn sgil y mwynwyr o Gernyw a ymfudodd yma i'r gweithfeydd mwyn.




Mae'r cylch yn enwog hefyd am y nifer o weinidogion Wesleaidd a gafodd fagwrfa yma, ac yna mynd i wasanaethu i bob rhan o'r wlad.


Gwelodd y bedwaredd ganrif ar bymtheg gynnydd mawr yn y boblogaeth, ond wrth i'r mwyngloddio ddirwyn i ben yn niwedd y ganrif, bu diboblogi enbyd ac felly ostyngiad yn nifer aelodau Ebeneser. Yn ystod y blynyddoedd aeth yr aelodaeth yn llai a llai, nes tua deg mlynedd yn ôl bu bron i'r capel gau ond er mai nifer fechan ydym, llwyddwyd i gadw'r drws yn agored. Mae ein dyled yn fawr i Mr Geraint Roberts, o Brestatyn, am ei gefnogaeth.

Un gwasanaeth y mis sydd gennym bellach, ac fe'i cynhelir ar yr ail ddydd Sul, am 2.30 y prynhawn, yn ystod y misoedd o Ebrill i Ragfyr. Ar ôl ambell i oedfa bydd paned i drafod a chymdeithasu. Yn y blynyddoedd diwethaf, cwblhawyd rhai gwelliannau sef peintio, gosod system wresogi ac uned sain; y dasg nesaf fydd codi arian i drwsio'r to.

Cafwyd dathlu mawr yn 1958 ar benblwydd yr achos yn gant a hanner oed. Ar y pryd roedd tua chant o aelodau. Yn 2008 ar achlysur dathlu dau can mlynedd o addoli, cafwyd penwythnos o weithgareddau yn cynnwys cyrddau pregethu, cymanfa ac arddangosfa o luniau ac arteffactau yn ymwneud â hanes y capel. Erbyn hyn mae gennym dudalen ar "Facebook", Capel Ebeneser Chapel, Ystumtuen.

Dyma felly beth o gefndir capel Ebeneser ac rydym yn mawr obeithio y bydd yr achos, nid yn unig yn parhau ond gyda bendith Duw yn cryfhau ac y bydd gair yr Efengyl i'w glywed yma yn Ebeneser, Ystumtuen am flynyddoedd eto i ddod.

# Dros Derfynau'r Ffrâm



Y Parchedig Raymond Hughes

Ers dyddiau plentyndod mae lluniau i mi wedi bod â rhyw gyfaredd arbennig yn perthyn iddynt. Does dim rhaid i'r lluniau fod wedi cael eu creu drwy ryw gyfrwng arbennig nac yn wir gan ryw arlunydd arbennig. Y cyfan sydd yn digwydd ydyw fod rhyw ddarlun mewn rhyw fan, ryw ddiwrnod yn tanio rhywbeth oddi mewn i rywun. Hefyd, fe all fod yn ddarlun mewn siop, mewn cartref, mewn oriel neu wedi ei greu ar y palmant gan un o arlunwyr y stryd. Mae un peth yn amlwg iawn i mi – gwag iawn fyddai bywyd heb fod darluniau ar gael ynddo fo.

Sut bynnag, mae angen un peth arall arnoch, wedi i chi ddod yn berchennog ar ddarlun – fel arfer, mae angen ffrâm am y llun. Pe baech yn holi, "Beth yw pwrpas ffrâm?" fe fyddai'r ateb gan ambell un yn dod yn eitha rhwydd sef "I hongian llun ar y wal". Wel, hwyrach fod peth gwir yn hynny. Sut bynnag, prif bwrpas ffrâm am lun yw dod â'r hyn sydd orau am y darlun i'r amlwg. Unwaith eto, mae amrywiaeth mawr o fframiau ar gael - fframiau amrywiol ar gyfer lluniau amrywiol. Fel arfer, ar gyfer dyfrlliw, mae'r ffrâm â gwydr ynddi i amddiffyn y darlun a'r lliwiau. Ffrâm bren gyda "mownt" sef cerdyn plaen, sy'n creu border rhwng y dyfrlliw a'r ffrâm bren.

Ym mlynyddoedd fy ngweinidogaeth, bûm ar amryw ymweliadau â gwahanol ysbytai i ymweld ag aelodau oedd yno yn derbyn triniaeth gan obeithio cael gwellhad. Wrth fynd ar hyd coridorau yn y gwahanol ysbytai, byddai amryw o ddarluniau i'w gweld ar y muriau. Weithiau byddent wedi cael eu cyflwyno'n rhodd i'r ysbyty, fel gwerthfawrogiad o'r cymorth a'r gwellhad a dderbyniodd un o'r cleifion.

Cofiaf weld darlun arbennig un tro yn ysbyty Amwythig. Gwelais ambell lun cyffelyb mewn mannau eraill yn dilyn hynny. Yr hyn oedd yn gwneud y llun yma yn arbennig oedd nid ei faint na'i werth ond y defnydd roedd yr arlunydd wedi'i wneud o'r ffrâm. Darlun oedd hwn o olygfa hardd gyda gardd o flodau o flaen bwthyn gwledig. Fe fyddai aml i ymwelydd neu glaf yn aros ac edrych ar y darlun yma gan weld rhyw harddwch cyfareddol a fyddai'n ysgafnu unrhyw faich a'i llethai ar y pryd. Ond yr hyn oedd mor arbennig am y darlun oedd bod yr arlunydd, mewn un rhan ohono, wedi peintio'r blodau nid yn unig oddi mewn i derfynau'r ffrâm ond hefyd ar y mownt rhwng y ffrâm a'r darlun. Hynny yw, roedd yr arlunydd wedi peintio rhyw gymaint o harddwch y blodau dros derfynau'r ffrâm. Harddwch oedd yn ymwthio dros y terfynau, yn gwrthod cael ei gyfyngu gan derfynau'r ffrâm, gan ymestyn allan at y rhai oedd yn mynd heibio. Ar y pryd meddyliais nid yn unig fod y darlun yn un hardd ond hefyd fod y syniad yn un hardd.

Ond roedd y darlun yn gwneud i mi weld drwy lygad y meddwl ddarlun arall. Darlun oedd hwnnw o rai roeddwn wedi ymweld â nhw mewn amrywiol ysbytai neu yn eu cartrefi. Roedd rhai ohonynt wedi gorfod wynebu amgylchiadau anodd iawn gyda fframwaith eu bywyd wedi ei grebachu a'i gyfyngu gan afiechyd, poen a blinder. Ac wrth ymweld â nhw synnais ambell dro fel yr oedd harddwch, hiwmor a chryfder eu cymeriad wedi gorlifo dros derfynau'r fframwaith bregus yr oedd afiechyd wedi ei osod arnynt. Ar adegau felly rhaid cydnabod fy mod yn troi am adref yn teimlo'n llawer iawn ysgafnach fy ysbryd nag yr oeddwn wrth fynd i mewn i'r ysbyty neu'r cartref i ymweld â'r claf.

Rydym i gyd yn byw ein bywyd o fewn rhyw fframwaith neu'i gilydd. Weithiau, hwyrach y byddwn ni yn penderfynu maint y ffrâm, dro arall mae amgylchiadau ac anawsterau bywyd yn penderfynu ei faint. Mae gennym ni i gyd ein fframwaith ar gyfer digwyddiadau'r dydd ond tybed na ddylem i gyd weld ein cyfle i ymestyn allan dros derfynau fframwaith bach ein bywyd i rannu rhyw flodeuyn bach o harddwch gyda hwn a'r llall, gan obeithio y byddwn wrth wneud hynny wedi ysgafnu rhyw gymaint ar eu baich a'u gofid?

**GWEITHREDU DROS BLANT**
**CYFRANIADAU**
**MAWRTH / EBRILL 2014**

| | |
|---|---|
| Di-enw | £25-00 |
| Miss M.Roberts, Bebbington, Er Cof am Peter ac Elizabeth Roberts, oddi wrth Megan a Merfyn | £40-00 |
| Gwyneth R. Ellis. Bebbington | £20-00 |
| Rhodd 'Y Grawys' Sheila A Thomas | £50-00 |
| Casgliad Bwrdd Te Y Synod | £ 31-95 |
| Capel Peniel, Llanelwy, Dyffryn Clwyd | £120-00 |
| Capel Salem, Rhyd y Foel, Dyffryn Clwyd | £175-00 |
| Cyfanswm | **£461-95** |

**Gyda diolch am bob cyfraniad.**
**Robin Jones, Cyswllt Synod Cymru, Gweithredu dros Blant.**

# Pythefnos Masnach Deg, 2014

gan y Diacon Stephen Roe

**Ymwelydd o Ghana**
Mae wythnos olaf Chwefror ac wythnos gyntaf Mawrth yn cael eu pennu bob blwyddyn yn 'Bythefnos Masnach Deg', amser i dynnu sylw at y gwahaniaeth y mae'r ymgyrch yn ei wneud ym mywydau rhai o bobl dlawd y byd. Fel rhan o'r dathliad eleni, ymwelodd Juliet Arku-Mensah, sydd yn gweithio i gwmni sydd yn tyfu bananas yn Ghana, Gorllewin Affrica, â Gogledd Cymru, gan dreulio un diwrnod efo ni yn Sir Fôn. Dangosodd Juliet luniau o'r planhigfeydd banana yn Ghana a soniodd am ei gwaith. Mae Juliet yn gweithio i Volta River Estates Ltd fel Swyddog Iechyd a Diogelwch, yn sicrhau bod y 420 o weithwyr ar y tir yn cael amodau gwaith teg a diogel.

**Sut mae tyfu bananas**
Disgrifiodd Juliet y gwaith o gynhyrchu bananas. Mae'n cymryd tua naw mis ar ôl i'r bananas bach gael eu plannu tan fyddan nhw'n barod i gael eu medi. Yn ogystal â chydymffurfio â rheolau masnach deg, mae'r bananas a gynhyrchir ar y blanhigfa yn organig, sydd yn golygu bod y gwaith ar y tir yn llafurddwys, achos does dim cemegolion artiffisial yn cael eu defnyddio. Ar ôl Medi, mae'r gweithwyr yn rhoi'r bananas mewn bocsys rhwyllog er mwyn eu hallforio i Brydain, ac mae'r fordaith yn cymryd tua phythefnos.

**Premiwm Masnach Deg**
Soniodd Juliet hefyd am y gwahaniaeth y mae masnach deg wedi'i wneud i'w chymdeithas. Un o'r cwynion a glywir yn aml am nwyddau masnach deg ydy eu bod nhw'n ddrytach na nwyddau cyffredin. Mae 'na ddau reswm am hynny - yn gyntaf, mae'r cynhyrchwyr yn cael pris teg am eu nwyddau yn hytrach na chael eu hecsbloetio, ac yn ail, ychwanegir swm bach at y pris (Premiwm Masnach Deg), ac mae'n rhaid i'r cynhyrchwyr fuddsoddi'r arian hwn er lles y gymuned. Mae Juliet yn aelod o'r pwyllgor sydd yn penderfynu sut i wario'r Premiwm Masnach Deg, a dangosodd luniau o rai pethau a brynwyd:

- Hyfforddiant i alluogi merched i sefydlu busnesau gwneud sebon a phrintio dillad
- Adeilad newydd ar gyfer yr ysgol
- Canolfan Iechyd
- Adeilad newydd ar gyfer yr ysbyty
- Cyflenwad dŵr glân
- Bysus i'w defnyddio ar gyfer digwyddiadau cymunedol e.e. bedydd, priodas, angladd
- Cefnogaeth yn dilyn trychineb naturiol e.e. tân, llifogydd



- Ysgoloriaethau i alluogi plant i barhau â'u haddysg ar ôl 13 oed

Dywedodd Juliet hefyd fod 30% o gynnyrch y blanhigfa heb fod yn fasnach deg, oherwydd diffyg galw. Mae'r ateb i hyn yn ein pocedi ni!

**Lledaenu'r neges**
Daeth nifer o ddisgyblion ac athrawon Ysgol Corn Hir, Llangefni, sydd yn Ysgol Masnach Deg, i gyfarfod â Juliet yn siop Waitrose, Porthaethwy. Cafodd y plant eu rhannu'n ddau grŵp, i fynd o gwmpas y siop (yn ofalus!) gyda throli a chasglu un enghraifft o gynifer o nwyddau masnach deg â phosib. Roeddent yn awyddus iawn i holi Juliet am ei gwaith a'i bywyd yn Ghana.

**Beth allwn ni ei wneud?**
Mae tuedd ynom i feddwl weithiau fod holl broblemau'r byd mor fawr fel na allwn ni wneud fawr o wahaniaeth. Ond ar ôl gwrando ar Juliet, mae'n amlwg nad yw hynny'n wir. Os byddwn yn prynu nwyddau masnach deg, byddwn yn helpu i newid bywydau pobl dlawd ar draws y byd.

## HYSBYSEB SWYDD

### Cylchdaith Fethodistaidd Llanelli a Chaerfyrddin

**Cyfle gwych am un flwyddyn i rywun 16–23 oed*:**
• Gyfrannu i'ch cymuned leol. • Dysgu amdanoch eich hun. • Mwynhau her. • Cwrdd â phobl ifanc eraill ym mhob rhan o'r wlad sy'n gwneud pethau tebyg. •Adeiladu perthynas dda â phobl ifanc yn ein Caffi Ieuenctid ym Mhorth Tywyn. •Cyfrannu i waith Pabell Cytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gwyliau haf eraill yng Nghymru.

Rhaid i ymgeiswyr fod rhwng 16 a 23 oed ar 1 Medi 2014

**Oes gennych chi ddiddordeb?** E-bostiwch Recruitment (recruitment@methodistchurch.org.uk) gan ddyfynnu'r cyfeirnod: OPP/BPYC/MK/0414
er mwyn cael pecyn ymgeisio.
**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** Dydd Gwener, 20 Mehefin 2014
**Dyddiad cyfweliadau:** Dydd Mercher, 9 Gorffennaf 2014

**Swydd ran-amser yw hon, i weithio 65 awr ym mhob mis calendr ar gyfartaledd. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr fod ar gael i weithio ar y dyddiadau a ganlyn:**
Penwythnos Hyfforddi Cyntaf: Dydd Gwener 5 i ddydd Sul 7 Medi 2014
Ail benwythnos hyfforddi: Dydd Gwener 17 i ddydd Sul 19 Hydref 2014
Cynulliad Plant ac Ieuenctid 3Generate: Dydd Gwener 14 i ddydd Sul 16 Tachwedd 2014
Trydydd Penwythnos Hyfforddi: Dydd Gwener 13 i ddydd Sul 15 Chwefror 2015
Pedwerydd Penwythnos Hyfforddi: Dydd Gwener 26 i ddydd Sul 28 Mehefin 2015

Mae Gofyniad Galwedigaethol ar gyfer y swydd hon sef bod yn rhaid i ddeilydd y swydd fod rhwng 16 a 23 oed – Rheol Sefydlog 250, Strategaeth Cyfranogiad Ieuenctid a'r Adroddiad ar y Genhedlaeth Goll, Y Gynhadledd Fethodistaidd 2009.
Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

**Gwneir y penodiad hwn yn amodol ar ddatgeliad manylach boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (*ar gyfer ymgeiswyr 18-23 oed).**
**Cyflog blynyddol o £15,520 pro-rata (£6,651 y flwyddyn am 65 awr ar gyfartaledd ym mhob mis calendr)** ***cyflog i'w adolygu ym Medi 2014*****.**
**Mae'n rhaid i bob ymgeisydd fod â'r hawl i fyw a gweithio yn y DU ac mae'n rhaid bod â rhif Yswiriant Gwladol cyfredol a phrawf dilys i ddangos pwy ydych (pasport neu dystysgrif geni Brydeinig, ewch i www.gov.uk/check-an-employees-right-to-work-documents am ragor o wybodaeth).**

# Merched Methodistaidd ym Mhrydain

## Cyfarfod y Gwanwyn, 2014

Cynhaliwyd ein cyfarfod yng nghapel Jerwsalem, Wrecsam ar bnawn dydd Sadwrn Mawrth 29. Llywyddwyd gan Mrs Gwenda Humphries, Prestatyn. Cawsom ein harwain yn ein defosiwn gan Mrs Siân Williams cyn i ni fwynhau datganiad cerddorol gan Mrs Margaret Morgan. Testun yr anerchiad gan y Parchedig Jennie Hurd oedd **Mamau'r Beibl, Ein Mamau yn y Ffydd**.







**Llawenydd a thristwch**

I ddechrau buom yn myfyrio ar ymateb Sarah, gwraig Abraham, pan fu iddi hi, wedi blynyddoedd o siom, ddarganfod ei bod hithau yn feichiog. Yn amlach na dim fe fyddwn yn cydlawenhau ac yn chwerthin yng nghwmni ein gilydd wrth drafod a rhannu ein hatgofion a'n profiadau wrth esgor. Ond ar y prynhawn braf o Wanwyn yng nghapel Jerwsalem fe fu i ni hefyd gofio am ing y gwragedd hynny a gollodd blentyn neu a deimlant yn fethiant am na chawsant y fraint o fod yn fam.

**Dewrder**

Cawsom ein hatgoffa gan Jennie na fyddwn yn cael ein geni i fod yn unigolyn unig; bod o leiaf dau berson yn bresennol ym mhob genedigaeth, yn fam a phlentyn. Yn amlach na pheidio fe fydd bydwragedd yno hefyd i'n cynorthwyo. Cyfeiriwyd ein myfyrdodau i bennod gyntaf Exodus lle ceir cyfeiriad at Siffra a Pua, y ddwy fydwraig a fu'n ddigon dewr i sefyll yn erbyn gorchymyn brenin yr Aifft. Anogwyd ninnau i feddwl drosom ein hunain a bod yn barod i fod yn ddewr wrth ddilyn Duw a sefyll yn erbyn anghyfiawnder.

**Menter**

Troi at hanes cyfarwydd Ruth a Naiomi, y fam a'r ferch yng nghyfraith a wnaethom am ychydig wedi hynny. Gofal y ddwy am ei gilydd drwy anawsterau bywyd yw un o nodweddion amlycaf yr hanesyn yma ynghyd â pharodrwydd y ddwy i fentro yng nghwmni ei gilydd i ehangu eu gorwelion a mentro i feysydd newydd.

**Dyfalbarhad**

Wrth droi i bennod saith o'r Efengyl yn ôl Marc cawn hanes ffydd y wraig o Syroffenicia, y Roeges a fu'n siarad ar ran eraill. Roedd dyfalbarhad y wraig arbennig yma wedi ennill y dydd, mynnodd sylw yr Iesu ac ni chafodd ei siomi ganddo.

**Mair, Mam yr Iesu**

Yna troi at Fair, mam yr Iesu. Bu presenoldeb tawel a chyson ei fam yn gefn i'r Iesu yn ystod ei fagwraeth ac yn ystod ei weinidogaeth. Ffyddlondeb diflino, cariad a gofal diderfyn, amhrisiadwy. Cwestiwn diddorol y bu i Jennie ei daflu atom yn ystod y rhan yma o'r sgwrs oedd hwn: "Tybed a oedd Duw wedi gofyn i ferched eraill cyn Mair, i fagu Ei fab?"

**Diolch am ein mamau**

Rhoddwn ddiolch am y gwragedd tawel, ffyddlon hynny sydd wedi bod yn gymaint o gefn i'n cynulleidfaoedd ar hyd y blynyddoedd. Rhoddodd Jennie ddiolch hefyd i'n "mamau mabwysiedig yn y ffydd" yr athrawon Ysgol Sul ac aelodau estynedig teulu'r eglwys sydd wedi ein meithrin ar ein teithiau ysbrydol.

**Crist – mam ein ffydd**

I gloi ei sgwrs cyfeiriodd at Grist fel mam ein ffydd. Cyfeiriodd yn arbennig at y ddelwedd ohono fel iâr yn casglu'r cywion dan ei hadenydd i'w hamddiffyn. Cofiwn fod natur teuluoedd ein gwlad yn newid a thadau hefyd yn gofalu a meithrin plant.

Diolch am y croeso a gafwyd yn Jerwsalem, am gwmnïaeth a chyfeill-garwch y chwiorydd a ddaeth i fwynhau orig fendithiol ar benwythnos pan deimlwn fod y cyfryngau a'r siopau wedi herwgipio Sul y Mamau a'i droi'n benwythnos o wario a sioe.

**Edrychwn ymlaen yn awr at ein cyfarfod nesaf ar Ddydd Sadwrn yr 11eg o Hydref.**

**Byddwn yn cyfarfod yn Rhuthun am 2:30 y prynhawn.**

# DATHLIAD ARBENNIG



**Gair o ddiolch:** Dymuna Mr Merfyn Jones a'i wraig Mary ddiolch o galon i bawb a fu'n gyfrifol am drefnu'r cyfarfod twymgalon a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ebeneser, Caernarfon ar 7 Ebrill. Diolch i'r siaradwyr am eu geiriau caredig ac am y cyflwyniad cerddorol arbennig. Diolchwn i chwiorydd y capel am baratoi'r bwyd ardderchog. Gwerthfawrogir yn fawr y cofion caredig a ddarllenwyd a'r rhodd anrhydeddus. Diolch yn fawr am eich cyfeillgarwch a'ch ffyddlondeb dros y blynyddoedd.




# Tudalen y Plant

## Y SULGWYN CYNTAF

Roedd Iddewon o bob man yn y byd yn dod i Jerwsalem i ddathlu gŵyl y Pentecost. Roedd disgyblion Iesu Grist gyda'i gilydd yn Jerwsalem. Nid oedd Iesu gyda nhw oherwydd, ar ôl iddo atgyfodi ac iddynt ei weld, roedd wedi ei gymryd i fyny oddi wrthynt i'r nef. Ond roedd Iesu wedi addo y byddai'n anfon ei Ysbryd Glân i fod gyda nhw a dyna a ddigwyddodd. Clywsant sŵn fel gwynt mawr yn rhuthro a gwelsant rywbeth tebyg i fflamau o dân yn dod ar bob un ohonynt. Wedyn roedd ganddynt nerth a gallu i ddweud wrth bawb am y Newyddion Da am Iesu. Ac yn rhyfedd iawn, roedd pawb yn eu clywed yn ei iaith ei hun ac yn gallu eu deall.

Rydym ni'n cofio'r hanes yma ar y Sulgwyn ac yn dathlu am fod yr Ysbryd Glân yn dod atom ninnau hefyd.

Symbol o'r Ysbryd Glân yw'r golomen. Fedrwch chi fynd â hi drwy'r ddrysfa at y plant?



**Gweddi**
**Diolchwn i ti, ein Duw, am anfon dy Ysbryd Glân i'n helpu ni. Gad i ni gael ein llenwi â'th gariad di. Amen.**



Ffrwyth yr Ysbryd yw cariad, llawenydd, tangnefedd, goddefgarwch, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder, hunanddisgyblaeth. (Galatiaid 5:22)